E M E
R G E
N C E

# NEWIDWYR DIWYLLIANT: ARTISTIAID YN CREU NEWID

FERN SMITH

2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# CYNNWYS

| | |
|---|---|
| 01 - 02 | CYNNWYS |
| 03 - 13 | MR A MRS CLARK - SMASH IT UP |
| 14 - 22 | ORIEL WRECSAM A BWTHYN Y BUGAIL |
| 23 - 33 | LLYSIAU'R VETCH |
| 34 - 36 | ADNODDAU A DARLLEN PELLACH |

# CYFLWYNIAD

Artist ydw i. Mae wedi bod gen i ddiddordeb erioed mewn sut gall artistiaid a'r celfyddydau fod yn elfennau o bwys sy'n sbarduno newid, boed yn bersonol, yn gymdeithasol neu ar draws y blaned. Rydym ar groesffordd fawr yn hanes pobl a'r blaned. Y mae'r ffaith hon wedi'i hailadrodd gymaint nes ei bod bron ag ymddangos yn gyffredin. Ond mae gwahaniaeth rhwng gwybod hynny a 'gwybod' go iawn, ac wedyn gweithredu ar y wybodaeth hon.

Yn awr yn fwy nag erioed gallwn wirioneddol ddweud ein bod yn byw mewn bydysawd cydgysylltiedig. Mae dewisiadau pob un ohonom yn effeithio ar fywydau pob un ohonom. Mae pob gweithred a wnawn, fel unigolion ac ar y cyd, yn effeithio ar y math o fyd a grëwn a'r math o fyd fydd ein gwaddol i genedlaethau'r dyfodol. Yng Nghymru, y mae gennym yr hyn allai fod yn un o'r darnau mwyaf radical o ddeddfwriaeth ers ffurfio Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gyflwynwyd yn 2015. Mae hyn yn rhoi lle canolog i gynaliadwyedd ym mywyd Cymru ac mae'n weledigaeth ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Mae'r ymadrodd 'nid yw parhau'r un ffordd yn opsiwn mwyach' yn un a glywais droeon dros y pum mlynedd diwethaf gan wyddonwyr, arbenigwyr ynni, amgylcheddwyr ac ymgyrchwyr. Y mae'n un o'r ymadroddion hynny a all eich cadw'n effro yn y nos. Gellir ei ystyried yn rhybudd, yn bryfociad, ond hefyd yn wahoddiad i ymgyfranogi o stori antur fwyaf ein hoes...creu planed sy'n gwerthfawrogi ac yn cynnal bywyd - o bob math.

Mae rôl bwysig i gelfyddyd wrth helpu i gyflawni hyn. Gweithred radical yw ymgysylltu'n wirioneddol â'r dychymyg. Sylwebydd ar y celfyddydau yw Suzi Gablik a chafodd ddylanwad mawr ar lawer o artistiaid sy'n gweithio ym maes 'ymarfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol'. Mae'n gofyn sut beth yw artist 'llwyddiannus' ar adeg o newid cymdeithasol ac ecolegol. Mae'r hen ffyrdd o ddiffinio llwyddiant yn cael eu cwestiynu. Daw mwy o artistiaid â'u hymarfer i'r cylch cymdeithasol.

Mae celfyddyd yn creu newid. Mae'n cyd-gerdded ag ef, yn cyfathrebu ag ef ac yn ei ddogfennu, ac felly mae'n creu mwy o newid. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, nid peth moethus nac ychwanegol yw celfyddyd, ond anghenraid. Mae rôl hanfodol iddi wrth ddychmygu'r math o fyd y dymunwn fyw ynddo a helpu i'w wireddu. Cyflwynwyd yr achos dros y celfyddydau a'u pwysigrwydd wrth greu dyfodol cynaliadwy yn y ddogfen 'Newid Diwylliant'. Mae'r ddogfen hon, 'Newidwyr Diwylliant: Artistiaid yn Creu Newid', yn adrodd tair stori am sut mae artistiaid mewn gwahanol rannau o Gymru yn arwain ar adfywio, cynaliadwyedd a gweithredu cymdeithasol. Y mae'n ymateb i wahoddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddogfennu prosiectau datblygu'r celfyddydau lle y defnyddiwyd creadigrwydd i sicrhau effeithiau newid cymdeithasol ehangach yn unol â gwaith y Tîm Menter ac Adfywio. Meddai Siân Tomos, Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio: "rydym eisiau defnyddio'r astudiaethau achos hyn i ysgogi diddordeb a brwdfrydedd yn rôl artistiaid o ran hybu newid cymdeithasol."

Mae'r tair astudiaeth achos a ddewiswyd yn gynrychioliadol o'r mathau o brosiectau sy'n ymgysylltu â'r gymdeithas sy'n cael eu cynnal gan artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru a thu hwnt i Gymru. Y prosiectau yw 'Mr a Mrs Clark: Smash It Up', 'Oriel Wrecsam a Phrosiect Bwthyn y Bugail' a 'Llysiau'r Vetch'.

Trwy gydol gwanwyn 2016, cyfwelwyd â detholiad o bobl a oedd yn ymwneud â'r prosiectau. Er mwyn adrodd pob stori mewn ffordd mor uniongyrchol â phosib, rwyf wedi paratoi trawsgrifiadau gair am air o bob un o'r cyfweliadau. Mae adnoddau a deunydd darllen pellach i'w gweld yn y cefn, gan gynnwys gwefannau'r prosiectau a'r artistiaid dan sylw.

**Fern Smith,**
**Cyfarwyddwr Creadigol,**
**Eginiad 2016**

# FERN SMITH



Mae gan Fern Radd Dosbarth Cyntaf mewn Seicoleg, Gradd Meistr mewn Cysylltiadau Diwydiannol a 25 mlynedd o brofiad yn cydarwain Cwmni Theatr Volcano, un o sefydliadau refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru. Ar ôl derbyn Cymrodoriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar Raglen Arweinyddiaeth Clore yn 2009, aeth yn ei blaen i sefydlu Eginiad, sef menter y celfyddydau a chynaliadwyedd (sydd bellach yn Gwmni Buddiannau Cymunedol), sy'n curadu digwyddiadau, comisiynu celf a chynnal gwaith ymchwil sy'n eirioli rôl y celfyddydau wrth greu newid cymdeithasol ac ecolegol. Mae ganddi ddiddordeb mewn creu amodau sy'n caniatáu deialog a thrawsnewid. Yn sylfaen i hyn y mae ei phractis preifat fel therapydd creuansacrol, gweinydd a hyfforddydd.

www.emergence-uk.org

# DIOLCHIADAU

Carwn ddiolch i'r holl artistiaid a'r ymarferwyr celf hynny sy'n rhan o'r tair astudiaeth achos a roddodd yn hael o'u hamser i'r prosiect hwn. Diolch hefyd i Thom Hill am ddylunio ac i Phil Ralph am olygu copi a'r cymorth parhaus. Diolch hefyd i Sian Tomos, Cyngor Celfyddydau Cymru, am geisio gweledigaeth newydd i'r celfyddydau yng Nghymru.

# MR A MRS CLARK SMASH IT UP



Inviting the Neighbours around to Paint, artist a delwedd: Marega Palser

*Dyma stori am gelf dros dro a siopau gwag yng Nghasnewydd, dirywiad tiroedd comin trefol a dau berfformiwr, Mr a Mrs Clark, yn dod o hyd i'w llais fel gweithredwyr celf. I ddarganfod sut y gwnaeth hyn oll ddigwydd, cefais sgwrs gyda Gareth Clark a Marega Palser yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter yng Nghaerdydd wrth iddynt ymarfer i fynd â'u sioe, 'Smash It Up', ar daith.*

# PWY YW MR A MRS CLARK?

*Artist yn seiliedig ar berfformio yw Marega Palser, ac mae'n byw yng Nghasnewydd. Astudiodd yn wreiddiol yn Ysgol Dawns Gyfoes Llundain, ac ar ôl graddio ym 1985 aeth yn ei blaen i weithio gydag amryw gwmnïau theatr, yn ogystal â bod yn aelod sylfaenydd grŵp theatr ddawns Paradox Shuffle.*

*Gweithiwr cymorth i bobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf oedd Gareth Clark yn wreiddiol. Wedi iddo gael ei drwytho ym myd y carnifal, drymio a chwarae gigiau byw, cyflwynodd Marega ef i fyd celfyddyd fyw a theatr. Ers 2001, maent wedi bod yn cydweithio fel y deuawd perfformio 'Mr a Mrs Clark'.*

**Gareth:** Yn y gwaith yr oeddwn i'n arfer ei wneud gyda phobl ifanc, roedd gen i ddiddordeb mewn syniadau fel sut rydym yn derbyn ein ffawd a sut gallwn greu newid. Dechreuais gymhwyso'r syniadau hyn yn fy mywyd fy hun. Ein hethos yw 'mae popeth yn bosib'. Mae'n golygu bod yn ddewr, beiddgar a nerfus, a'r cyfan yr un pryd. Roedd Marega yn sbardun yn hyn oll. Roeddwn i'n canfod fy hun mewn sefyllfaoedd nad oeddwn i byth yn meddwl y byddwn ynddynt, a chyda phobl nad oeddwn byth yn meddwl y byddwn yn eu cwmni. Mae 'na gêm fyrfyfyr wych o'r enw 'ie, dewch inni' – mae hyn yn crynhoi ein gwaith a'n ffordd o feddwl. Mae'n golygu peidio â dweud Na! Does dim syniadau dwl, dim ond syniadau.

*Aeth Marega yn ei blaen i astudio celfyddyd gain yn Ysgol Gelf Caerdydd. Arweiniodd hyn at ddiddordeb mewn cyfuno perfformiad a gwneud marciau. Dyfarnwyd Gwobr Cymru Greadigol iddi yn 2010 a arweiniodd at nifer o sioeau unigol ac ar y cyd, a'i galluogi i ddatblygu'r gwaith hwn gyda dawnswyr eraill.*

**Marega:** Mae gen i ddiddordeb mewn sut mae pethau yn taro yn erbyn ei gilydd ac yn dod â bydoedd cyferbyniol ynghyd. Yng ngeirfa'r celfyddydau, artist amlddisgyblaethol ydw i, ond 'symud ac ysgwyd' yw sut rwy'n disgrifio'r hyn a wnaf.

*Ffurfiodd Marega a Gareth bartneriaeth Mr a Mrs Clark fel ffordd i ddilyn eu diddordebau cyffredin, er eu bod hefyd yn parhau i weithio fel artistiaid unigol. Mae eu gwaith yn denu sylw cynyddol, yn y wlad hon a thramor, ac yn ddiweddar cafodd ei dewis ar restr fer Gwobr Rhyddid Mynegiant Amnest Rhyngwladol yn 2015.*

**Marega:** Mae cyd-destun ein rôl yn newid o hyd – o ymarfer yn y stiwdio, i'r awyr agored, i weithio gyda phobl sydd â phrofiad o theatr neu ddawns, i bobl sydd heb unrhyw brofiad. Rydyn ni bob amser yn gofyn: "Beth yw rôl hyn?" "Beth yw ein rôl ni?"

*Y Clarks yw un o'r cwmnïau mwyaf cynhyrchiol ac sy'n gweithio galetaf yng Nghymru. Yn aml, yn arbennig yn y dyddiau cynnar, byddai'n gweithio heb fawr ddim cyllideb. Roedd amarch, hiwmor, swrrealaeth a delweddau tywyll yn rhan o'u perfformiadau cynnar, ond nid geiriau llafar. Roedd yr is-sioe neu'r cabaret yn ffactor nodedig yn eu gwaith, ac felly hefyd eu hagosrwydd at y gynulleidfa, a byddai'r gwaith yn cynnwys y gynulleidfa weithiau er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyfarwyddo'r sioe (Nine: 'Dau berson, naw golygfa. Chi sydd i ddewis beth sy'n digwydd nesaf').*

**Fern:** Felly pam ei bod yn bwysig bod y gynulleidfa yn cymryd rhan?

**Gareth:** Alla i ddim dioddef rhywun yn pregethu wrthyf i. Rydw i eisiau dod o hyd i fy ffordd fy hun. Rydyn ni'n gwahodd y gynulleidfa i ddod o hyd i'w ffordd eu hunain. Yn ganolog i'n gwaith mae cychwyn ar sgyrsiau, cynnal disgwrs gyda phobl. Dim ond os ydych chi'n gweithio y bydd hyn yn gweithio...Mae cyfranogiad a grymuso'r gynulleidfa wastad wedi bod yn bwysig i'n gwaith.



Moving Museum, Marega Palser a Joanna Young, llun: Gareth Clark

# CASNEWYDD



Beneath The Surface, NIA, llun: Jo Haycock

**Fern:** Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y ffaith ichi symud i Gasnewydd?

**Gareth:** Roedd symud i ffwrdd o Gaerdydd lle'r oeddem wedi byw o'r blaen yn bwysig. Symud i le y tu allan i Gasnewydd wnaethon ni gyntaf, ac wedyn i'r canol. Dyma ni'n dod o hyd i sîn danddaearol, DIY nad oedden ni'n gwybod amdani. Wedyn daeth y siopau gwag. Cafodd canol Casnewydd ei daro'n galed gan argyfwng ariannol 2008. Wrth baratoi at Gwpan Ryder a'r gwaith o dacluso Casnewydd, aeth cyngor y ddinas ati i brynu nifer o siopau gwag yn orfodol er mwyn "gwneud rhywbeth" amdanynt. Mewn gwirionedd, bu'r siopau gwag yn ysgogiad i gymuned y celfyddydau. Dechreuodd ochr herfeiddiol y ddinas ddatgelu ei hun.

*Yn 2010, roedd National Theatre Wales yn cyflwyno [The Dark Philosophers] yng Nghasnewydd. Daeth hyn i fod yn sbardun i waith y Clarks yng Nghasnewydd, a hwythau ymhlith y rhai cyntaf i 'fabwysiadu' siopau gwag fel gofodau celf – tuedd a oedd bellach ar gynnydd.*

**Gareth:** Fel rhan o Gynulliadau NTW, a oedd yn cyd-fynd â phob sioe, roedd angen iddynt wneud cyswllt â'r gymuned, felly dyma nhw'n dweud wrthym: "mae gennym ni ofod gwag, hoffech chi wneud rhywbeth?"

*Yn nes ymlaen, mewn prosiect celfyddydol o'r enw 'Store', gofynnwyd i Marega helpu i 'werthu' perfformiadau o siop wag. Nid oedd erioed wedi gwneud hyn o'r blaen ac roedd ganddi ddiddordeb mewn sut fyddai'r broses yn gweithio.*

**Marega:** Fe ddwedon nhw, "Chi yw'r bont rhwng y stryd a'r gelfyddyd." Roedd hyn yn gwneud synnwyr gwirioneddol. Gofynnais i bobl a hoffen nhw berfformiad. "Beth yw perfformiad?" fyddai ymateb pobl. Roedd yn rhaid inni ailystyried ein hiaith ein hunain.

**Gareth:** Pan ofynnom i bobl yng Nghasnewydd a hoffen nhw weld mwy o gelf, "Na!" oedd eu hateb. Ond ar ôl gweld digwyddiadau celfyddydol yn ddyddiol, deuai'r un bobl atom a gofyn pryd mae'r digwyddiad nesaf.

**Marega:** Ond mae pobl eisiau gweld mwy o egni cadarnhaol - maen nhw wirioneddol yn ymateb i'r hyn a wnawn - ond mae 'celfyddyd' yn aml yn teimlo fel gair i bobl eraill.

**Gareth:** Roedd Sgwâr John Frost am gael ei ddymchwel. Yn hanesyddol, roedd hwn yn le i gyfarfod a gwrthdystio yng Nghasnewydd. Roedden ni am gychwyn sgwrs am sut roedd pobl yn teimlo am hynny a beth oedd am ddigwydd i ganol y ddinas. Mae gen i ddiddordeb mewn gwneud pethau mewn mannau anarferol. Roedd gan Dîm Datblygu Celfyddydau Cymunedol yng Nghasnewydd reolaeth dros siop wag o'r enw '[Gofod Prosiect]'. Gofynnom a allem wneud rhywbeth yn y fan honno.




"ROEDD YN RHAID INNI WNEUD RHYWBETH GO DDEWR, YN GO GYFLYM."

Inviting the Neighbours around to Paint, artist a delwedd: Marega Palser



Beneath The Surface, NIA, llun: Jo Haycock

**Mudiad Occupy** yw cangen ryngwladol [Occupy Wall Street] sy'n protestio yn erbyn anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd o amgylch y byd, a'i nod pennaf yw gwneud i'r cysylltiadau economaidd a gwleidyddol mewn cymdeithasau fod yn llai fertigol hierarchaidd ac wedi'u dosbarthu yn fwy gwastad.

**Fern:** Allwch chi sôn wrthyf i sut mae ymwneud â'r siopau gwag wedi dylanwadu ar eich gwaith?

**Marega:** Y siopau gwag? Roedden nhw fel manna o'r nefoedd. Os ydych chi eisiau newid cymdeithasol, rhowch flaen siop i artist. Fe wnaethon ni gwrdd â hanner poblogaeth Casnewydd! Byddai pobl yn dweud nad oedden nhw erioed wedi gweld y fath beth. Egni oedd popeth – egni pobl. Mae'n caniatáu rhyddhad – gollyngdod. Mae dyfyniad gwych gan Carrie Reichardt – "Byddwch wyliadwrus o artistiaid – maent yn cymysgu gyda phob dosbarth cymdeithas ac felly hwy yw'r mwyaf peryglus".

Un o fy hoff brosiectau siopau gwag oedd 'Inviting the Neighbours around to Paint'. Prosiect lluniadu a phaentio oedd hwn yn llythrennol. Gall cyllideb fach fynd yn bell. Daw hyn o fod â ffordd DIY o feddwl – beth gallaf wneud o ddim byd? Daeth y siop yn hafan ddiogel i bawb oedd yn mynd drwy'r Stryd Fawr. Doedd yn ddim i'w wneud â'ch delwedd gyhoeddus ar y stryd.

*Yn 2011/12, roedd y Clarks, ynghyd ag artistiaid lleol eraill, yn ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu 'The Meeting'. Arddangosfa, taith a pherfformiad oedd hyn yn ardal Gofod y Celfyddydau Trefol yn Sgwâr John Frost, prosiect a oedd yn cael ei redeg gan swyddogion datblygu celfyddydau cymunedol yng Nghyngor Casnewydd.*

**Gareth:** Drwy'r camau ymchwil a datblygu, cawsom gyfleoedd i gwrdd â llawer o bobl, artistiaid, grwpiau, prosiectau...Arweiniodd at greu perfformiad a oedd yn dwyn yr un enw – The Meeting...Roedd y prosiect cyfan i fod yn seiliedig ar 'herfeiddio'. Ond tawedog iawn oedd pobl yng Nghasnewydd ynghylch trefnu neu ysgogi – "twll o le yw Casnewydd" fyddai pobl yn dweud, ac yn ymddangos fel eu bod yn derbyn hynny.

Dyma ni'n dechrau cynnal gweithdai gydag artistiaid eraill a chyda phobl ifanc. Fel rhan o'r rhain, roedden ni'n dechrau clywed pobl yn dweud "Fyddwn i byth yn byw unrhyw le arall". Roedd balchder o'r lle nad oeddem wedi'i glywed o'r blaen. Ond roedd perthynas ryfedd o waseidd-dra tuag at yr awdurdod lleol, felly lluniwyd perfformiad wedi'i drefnu lle'r oeddem yn herwgipio cynghorydd lleol / datblygwr preifat, er mwyn i bobl allu dweud eu dweud wrthynt. Felly dyma ni'n rhwymo'r 'cynghorydd' i gadair â thâp ac roedd yn rhaid iddo wrando. Ond dyna'r cyfan oedd gan bobl i'w ddweud oedd pethau fel: "allwn ni gael gwell parcio?" Roedd yn synnu pobl nad oeddynt yn gwybod beth i'w ddweud, ac na allent ofyn am unrhyw beth arall. Wedyn dechreuodd pobl siarad mwy gyda'i gilydd. Collwyd dagrau. Dechreuodd pobl ddweud, "Rwy'n credu bod yn rhaid imi wneud mwy". Teimlai fel drws pwysig yn agor. Roedd fel codi pont.

*Roedd hyn oll yn digwydd yr un adeg â mudiad byd-eang Occupy y cyfeiriodd Gareth ato fel sbardun sylweddol iddynt, drwy eu gwaith, ymgymryd â rôl ymgyrchwyr celf.*

# NEWPORT INTERNATIONAL AIRSPACE (NIA)

**Gareth:** Gwaddol The Meeting, mewn ffordd, oedd NIA – pedwar artist yn dod ynghyd gyda grant bach gan Gyngor y Celfyddydau i'w greu. Roeddem eisiau ein cefnogi ein hunain yn ogystal ag artistiaid proffesiynol eraill sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd. Byddem yn dod ynghyd i rannu ein hymarfer, trefnu gweithdai, teithiau cerdded celf a digwyddiadau.

*Prosiect cyntaf NIA oedd 'Encounters Beneath the Surface' a oedd yn golygu curadu rhaglen o sgyrsiau, teithiau cerdded, dangosiadau ffilm a gweithdai. Unwaith eto, Casnewydd oedd y pwnc...*

**Marega:** Fe gymeron ni reolaeth dros adeilad am fis. £5 oedd pris mynediad. Roedd yn ofod enfawr. Dwedai pobl eu bod yn teimlo fel eu bod nhw yn Amsterdam, nid yng Nghasnewydd! Roedd bar, sinema, mannau perfformio yno – roedden ni eisiau ymgysylltu â chymaint o bobl â phosib. Gwnaethom ddigwyddiadau am fewnfudo a digartrefedd yn y ddinas, priodi plant, pris eiddo yng Nghasnewydd. Roedd gennym bum sioe ar y gweill yr un pryd.

*Er mwyn rhoi mwy o sylw i'r diddordeb hwn mewn ymarfer ymgyrchu celf sy'n ymgysylltu mwy â'r gymdeithas, yn 2014/15 gwnaeth Gareth gais llwyddiannus am wobr Cymru Greadigol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.*

**Gareth:** Rhaid canmol Cyngor y Celfyddydau yn fawr - maen nhw'n deall! Peth mor brin yw Cymru Greadigol - nid oes gan yr un corff arall y lefel hon o fuddsoddiad mewn artistiaid unigol. Gan fy mod i o'r tu allan i fyd celf/theatr, teimlai'n bwysig imi fy mod yn ei weld yn arwydd fy mod yn dod yn artist, neu'n cael fy ystyried yn artist. Mae wedi cymryd deng mlynedd o greu celf imi o'r diwedd allu galw fi hun yn artist!

Grŵp o artistiaid proffesiynol yw **NIA** a ddaeth at ei gilydd drwy The Meeting. Cydweithiwn ag eraill i arddangos y doniau, y gofod a'r amrywiaeth sydd yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Egwyddor sylfaenol NIA yw datblygu'r angen am synnwyr o werth, am gelf ac ymarfer creadigol yn ninas Caerdydd, yn bennaf drwy ymgysylltu â'r cyhoedd mewn mentrau newydd wedi'u cyflwyno'n broffesiynol - gosodiadau celf cyhoeddus, arddangosfeydd, perfformiadau a sain. Credwn fod gan gelf y pŵer nid yn unig i newid yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, ond y gall hefyd helpu i roi llais i bobl a'r teimlad eu bod wedi'u grymuso.



Benson Wereje, Sgyrsiau NIA, llun: Jo Haycock

## "MAE TIR Y CYHOEDD YN CAEL EI ERYDU OND NI WELWN Y TARW DUR"




This is Private (SIU Action), Clarks/Bosch, llun: Jac Teach

# SMASH IT UP (SIU)

**We Need to have a Plan B'**

"Oni aeth y celfyddydau yn ddiogel ac i ymddwyn yn dda yn ystod blynyddoedd Llafur Newydd? Dyna gredaf i. Dydw i ddim yn credu eu bod yn dweud y gwir – y gwirionedd brwnt, peryglus, doniol, annifyr, aflonyddgar, swnllyd a hardd – mor aml ag a ddylent...

Yn gryno, credaf i sector y celfyddydau yn gyfan fynd ar gyfeiliorn yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Fel pan oedd y Titanic yn anelu at y mynydd iâ, roeddem ninnau'n mynychu seminarau a gweithdai, yn dysgu sut i hwyluso rheweiddiad mwy effeithiol yn sector y diwydiant diwylliannol, pan allem fod wedi bod yn edrych drwy'r telesgop ac yn cynllunio cwrs cwbl wahanol i'r fordaith. Nid oedd y bancwyr na'r gwleidyddion yn edrych tua'r gorwel o'u blaen i weld y mynydd iâ. Ond nid oeddem ninnau chwaith. Difyrru'r union fancwyr a gwleidyddion oeddem ni yn ein gala ddiweddaraf, mewn noson o berfformiad cymdeithasol, cynhwysol sy'n gyfeillgar i'r sector corfforaethol."

Mark Ravenhill

**Fern:** Beth a ysbrydolodd Smash It Up?

**Gareth:** Mae Smash It Up yn gangen olewydden ac yn alwad i uno. Un o blith llu o ddeilliannau fy mlwyddyn gyda Chymru Greadigol ydyw – blwyddyn o chwilio, dysgu a gwneud. Cafodd ei ysbrydoli, ymysg pethau eraill, gan araith a roddwyd gan y dramodydd Mark Ravenhill yn 2013 yng Ngŵyl Caeredin, 'We Need to have a Plan B'...

**Gareth:** Roeddwn i yn Efrog Newydd, yn ymarfer 'Porno', sioe ynglŷn â dod o hyd i gariad yn y diwydiant rhyw. Cefais neges gan Meg yn dweud eu bod nhw ar fin dinistrio tirnod hanesyddol yng Nghasnewydd – murlun i goffáu Gwrthryfel y Siartwyr. Roeddwn i'n teimlo'n wael ac yn meddwl: "beth ydw i'n gwneud fan hyn, nid dyma'r math o waith rydw i eisiau bod yn ei wneud"...

*Yn y cyfamser, roedd Marega yn rhan o wrthdystiad yng nghanol tref Casnewydd. Bu'n rhan o'r gwaith o greu cysegr i nodi'r ffaith bod y murlun yn cael ei chwalu, a thynnwyd y cysegr i lawr ar unwaith gan y cyngor. "Cywilydd arnoch chi" oedd ei hymateb.*

**Gareth:** Roedden ni'n gwybod bod yn rhaid inni wneud rhywbeth. Roedd y murlun, a wnaed gan Kenneth Budd ym 1978, o bwys lleol a chenedlaethol. Cynrychiolai gam hanfodol ym mudiad hawliau sifil ym Mhrydain, ac roedd yn rhan allweddol o hanes pobl Casnewydd.

Aberthwyd safle'r murlun, a'r murlun ei hun yn y pen draw, ar gyfer datblygiad newydd yng nghanol y ddinas, a theimlai'r cyngor lleol fod ei ddwylo wedi'u rhwymo. Os oedd eisiau'r ganolfan siopa newydd, rhaid oedd ildio i'r datblygwyr preifat a cholli'r murlun. Teimlai fel dewis anodd rhwng darn o hanes Casnewydd ac adfywiad arfaethedig ar gyfer dyfodol y ddinas. I gychwyn, deallwyd y câi'r murlun ei ymgorffori yn y datblygiad newydd. Ond doedd hynny ddim yn opsiwn wedyn. Ffurfiwyd grŵp ymgyrchu i geisio ei atal rhag digwydd. Stori'r murlun oedd testun Smash It Up – stori leol ond un sy'n elfen o ddigwyddiadau a dewisiadau ym mhob rhan o'r byd. Mae'r murlun bellach mewn safle tirlenwi. Roedd hyn yn ddatganiad clir ac yn her i ni fel artistiaid. Roedd yn rhaid inni wneud rhywbeth go ddewr, yn go gyflym.

Unwyd dwy ran o sîn gelf Casnewydd drwy SIU - Bosch, deuawd ffilm danddaearol ac arloesol, a'r Clarks gyda'n cefndir ym myd perfformio. André Stitt oedd mentor y prosiect, fel y gallem ddysgu mwy am berfformio mewn gofod cyhoeddus. Cafwyd grant datblygu theatr i gefnogi'r gwaith archwilio ar y camau cynnar...

**Marega:** Dylanwadwyd ar SIU gan ein gwaith blaenorol mewn siopau gwag, a'r thema wrth gwrs oedd colli gofod cyhoeddus. Roeddem eisiau creu gweledigaeth a allai gythruddo

**Gareth:** Ysbrydoliaeth ac adnodd pwysig wrth greu SIU oedd y llyfr, 'Blueprint for a Revolution', canllaw â darluniau i newid y byd drwy ddulliau di-drais gan Srdja Popovic.

**Fern:** Mae gen i ddiddordeb yn y ffaith ichi ddefnyddio testun ac

iaith lafar yn Smash It Up. Doeddwn i ddim wedi gweld hynny mewn gwirionedd yn eich gwaith blaenorol. Defnyddio distawrwydd neu ganu caneuon oeddech chi'n bennaf.

**Gareth:** Roedd yn teimlo fel ein bod ni o'r diwedd wedi ennill yr hawl i siarad. Ond wedyn mae distawrwydd yn dal i fod yn rhan bwysig o'r hyn a wnawn. Mae'r holl 'weithredoedd' fel rhan o SIU yn cael eu gwneud mewn distawrwydd. Daw distawrwydd yn weithred wleidyddol. Y ddelwedd, y symbol, y weithred sy'n dod yn bwysig. Mae agwedd ddefodol i'n gwaith hefyd.

*Yn dilyn cyfnod dwys o ymchwil a datblygu, dyma nhw'n dod o hyd i'w cymeriadau 'cadwraethwyr diwylliannol', a'u gwisg o siwt taniwr a siaced lachar, ac aethant ati i greu sioe beilot a gâi ei pherfformio am y tro cyntaf yn Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd.*

**Gareth:** Mae SIU yn ymwneud â hanes dinistrio. Y mae'n gais dinistriol am gadwraeth ddiwylliannol. Roedd rhywbeth ynglŷn â gweld y palwr yn dinistrio'r murlun y gallai pobl ei ddeall. Pan fyddwch chi'n gweld rhywbeth pwysig yn cael ei ddinistrio, rydych yn teimlo'n ddig. Ond beth am bethau eraill sy'n cael eu herydu a'u dinistrio – hawliau, rhyddid, mynediad at ofod cyhoeddus, y GIG, y system addysg? Nid yw'r rhain mor weladwy felly mae pobl yn poeni llai amdanynt. Mae tir y cyhoedd yn cael ei erydu ond welwn ni ddim o'r tarw dur. Does dim dicter.

**Marega:** Yn ein hamser yn siopau gwag Casnewydd, fe ddysgom y gall artistiaid gael sgyrsiau agored. Celf yw'r cyfrwng i gysylltu pobl a phethau.

Stori am rywbeth lleol iawn yw SIU ond mae'n digwydd ym mhobman... Roeddem yn ystyried sgwn i a fyddai'n trosi i leoedd eraill, felly aethom â'r sioe i Fringe Caeredin. Roedd pobl wir wedi'i deall hi... cawsom ein dewis ar restr fer Gwobr Rhyddid Mynegiant Amnest Rhyngwladol.

**Terfysg Casnewydd** oedd y gwrthryfel arfog olaf yn erbyn yr awdurdodau ym Mhrydain, ac roedd y gyflafan ymysg y mwyaf a gyflawnwyd gan lywodraeth Prydain yn y 19eg ganrif. Ar 4 Tachwedd 1839, gorymdeithiodd rhwng 1,000 a 5,000 o gefnogwyr y Siartwyr, dan arweiniad John Frost, i dref Casnewydd yn Sir Fynwy. Roedd y dynion, gan gynnwys llawer o lowyr, a'r rhan fwyaf ohonynt yn cario arfau'r oeddynt wedi'u gwneud eu hunain, yn llawn bwriad i ryddhau cyd-Siartwyr yr oedd sôn eu bod wedi'u carcharu yng Ngwesty Westage yn y dref. Lladdwyd tua 22 o wrthdystwyr pan ddechreuodd milwyr saethu tuag atynt. Cafwyd arweinwyr y gwrthryfel yn euog o uchel frad ac fe'u dedfrydwyd i farwolaeth bradwyr. Newidiwyd y ddedfryd wedyn i alltudiaeth am oes. Mwy o wybodaeth



Bound Detained (Gweithred SIU),Clarks/Bosch, llun: Andrew Rock



This is Public, Clarks/Bosch, llun: Andrew Rock

# Y GWEITHREDOEDD

*Roedd 'Ymyriadau Cyhoeddus' neu 'Weithredoedd' (neu'r hyn mae'r mentor André Stitt yn eu galw'n AKSHUNS) yn rhan hanfodol o'r gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer Smash It Up, ond yn fuan iawn roeddynt cyn bwysiced â'r sioe ei hun. Daethant i fod yn berfformiadau bach, yn is-sioeau ac yn weithredoedd defodol yn ogystal â bod yn gyfleoedd marchnata gwych i'r daith ei hun o'u dogfennu a'u rhyddhau drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar ffurf ffilmiau byr trawiadol.*


Smash It Up, Clarks/Bosch Jo Haycock

**Marega:** Fel rhan o'r Gweithredodd, gofynnwn: "beth sydd angen inni dynnu sylw pobl ato?"

**Gareth:** Byddem yn lapio henebion cyhoeddus â thâp ac ysgrifennu 'dan fygythiad' arnynt. Mae mannau cyhoeddus wedi'u cyfyngu a'u rheoli yn awr. Mae hyn yn mynd yn groes i hawliau dynol. Nid fel hyn oedd pethau. Ond i bobl ifanc, mae 'na deimlad mai fel hyn mae pethau wedi bod erioed, ac nad oes dim am newid. Does dim dewis arall. Ac mae rhywbeth am y meddwl creadigol sydd hefyd o dan fygythiad.

**Marega:** Un o'r Gweithredoedd cyntaf oedd 'Imagining a Better Future' yng Nghanolfan Siopa Cwmbrân. Roedden ni'n sefyll yno mewn distawrwydd yn gwneud hynny'n union – dychmygu dyfodol gwell... Ar ôl chwe munud, galwyd am y tîm ymateb cyflym. Dywedon nhw y byddai'n rhaid inni fynd i swyddfa'r rheolwyr. Gwrthodom. Ar ôl ugain munud, daeth y rheolwyr atom ni. Dyma nhw'n gofyn beth oeddem yn meddwl oeddem yn gwneud yno. Dwedon ni ein bod yn dychmygu dyfodol gwell. Dyma nhw'n dechrau ar eu haraith ar ba mor wych yw'r dref...

Fe wnaethon ni Weithred arall yng Nghanolfan Siopa Ffordd y Brenin, Casnewydd. Doedden nhw ddim yn hoffi hynny. Dyma ni'n cario bwrdd 8 troedfedd wrth 4 troedfedd gyda 'THIS IS PRIVATE' wedi'i ysgrifennu arno. Defnyddiodd Bosch fideo o hyn yn y ffilmiau a wnaethant ar gyfer SIU.

**Gareth:** Ac wedyn roedd y tro hwnnw pan drefnon ni Weithred yn ystod Uwchgynhadledd NATO ychydig

y tu allan i Gasnewydd yn 2014. Roedd 9,500 o'r heddlu wedi'u galw i mewn, felly roedd diogelwch yn llym. Cawsom ein cadw yn y ddalfa. Arhosom yn ddistaw. Roedd briff ein gweithred yn fy mhoced (rydym yn ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer pob un a wnawn). Tair tudalen o 'faniffesto' oedd, a dyma'r heddwas yn y diwedd yn adrodd y maniffesto dros y ffôn i'w uwch swyddog.

**Marega:** Gwyddem fod yn rhaid inni wneud rhywbeth i nodi agoriad terfynol Canolfan Siopa Rhodfa'r Brodyr yng Nghasnewydd ar 12fed Tachwedd 2015, a oedd wedi'i adeiladu'n rhannol gyda £90m o arian y cyngor wedi'i fenthyg i'r datblygwyr i wneud yn siŵr y byddai'n agor ar amser. Er mwyn adeiladu'r ganolfan siopa hon y cafodd murlun y Siartwyr ei ddymchwel. Dyma'r tri ohonom yn ein rhwymo ein hunain at ein gilydd gyda chadwynau gan ymlusgo ymlaen gan ddal bagiau plastig glas. Meddai'r bobl hŷn: "dyma griw'r cadwyni'n dod!".

Mae datblygiadau preifat yn aml yn creu problemau, bydd ardaloedd mawr o'r dre ar gau i'r cyhoedd, caiff mannau agored mawr eu cau gan fyrddau neu'u gadael am fisoedd neu flynyddoedd rhwng gwaith dymchwel ac ailadeiladu. Rhaid i gerddwyr ddod o hyd i lwybrau newydd, ac mae'n arbennig o anodd i rai sydd â chadeiriau gwthio neu sy'n llai abl i gerdded.

*Diben y Gweithredoedd yw rhoi cyhoeddusrwydd i'r sioe, ond mae pob un yn datblygu i fod yn brotest fach / darn o gelf ynddo'i hun.*

**Marega:** Yng Nghaeredin, roedden ni'n cerdded yn araf mewn rhes sengl, yn dal arwyddion – SIU un ochr, a phetryal mawr coch gwag yr ochr arall. Mae cario placard fel arfer yn golygu eich bod naill ai'n gwerthu neu'n protestio. Mae angen inni ddiogelu'r gofod gwag ry'n ni'n ei gario ar y cerdyn – gofod ar gyfer lliw, meddwl a chelf. Rydych chi'n teimlo'n agored. Pan fydd pobl yn gofyn inni/imi (yr unig fenyw yn y rhes) beth rydyn ni'n gwneud, wrth inni ei wneud mewn distawrwydd, fydda i ddim yn ateb fel arfer. Cefais fy ngalw'n 'ast' neu'n 'fuwch haerllug'. Rhaid ichi dyfu croen hynod o drwchus. Mae'r wisg yn helpu. Mae'n eich helpu i ddiosg rhannau o chi'ch hun.

Fyddwn ni ddim yn defnyddio geiriau fel arfer. Dydyn ni ddim yn gorchymyn. Dydyn ni ddim eisiau dweud wrth bobl beth i'w feddwl. Rydyn ni eisiau rhoi amser a lle i bobl fyfyrio, dehongli'r ddelwedd a chreu eu naratif eu hunain. Unwaith y byddwn wedi gwisgo'r wisg a gadael y tŷ, rydyn ni'n chwarae'r rhan. Yn cydgerdded, heb siarad, mewn rhes sengl. Mae'n debyg i ddawns, am wn i. Corff yn symud mewn gofod, yn goreograffiaeth. Mae'n golygu ystyried mannau cyhoeddus yn faes chwarae ichi.

**Gareth:** Rydyn ni wedi bod yn rhan o Weithredodd fel rhan o Orymdaith Gwrth-lymder, ac yn Aberystwyth yn ddiweddar roeddem yn tynnu sylw at y ffaith bod y cyngor yn llacio cyfyngiadau ar ddatblygu yn y dre, gan arwain y ffordd at siopau coffi cadwyn sy'n taro busnesau annibynnol.

**Marega:** Yng ngorymdaith Caerdydd Heb Ddiwylliant, fe wnaethon ni 'ail linell', gan ddal ymbaréls fel mewn angladdau traddodiadol yn New Orleans.

**Gareth:** Mae gwneud y sioe yng Nghaeredin wedi arwain bellach at sgyrsiau gyda phobl yn Leeds, Lerpwl a Llundain ynglŷn â phreifateiddio gofod. Enghraifft o'r math hwn o beth yw'r Garden Bridge arfaethedig yn Llundain. Mae'n cael ei adeiladu ag arian cyhoeddus ond mewn gwirionedd gofod wedi'i breifateiddio a'i reoli fydd e.

**Fern:** A sut mae'r gwaith hwn wedi eich newid? Beth mae wedi rhoi ichi?

**Marega:** Sgwrs, a chyswllt. Rwy'n dwlu ar y ffaith y gallaf daro ar amrywiaeth mor eang o bobl yng Nghasnewydd bellach, a chael sgwrs – a bod hyn wedi digwydd drwy brosiect celf. Mae hynny'n destun llawenydd, yn elw ar y cyfan.

**Fern:** A beth nawr, beth sydd nesaf?

**Marega:** Mae ychydig o syniadau yn ffrwtian ar y tân. Mae'n teimlo'n bwysig gwneud gwaith sy'n adlewyrchu'r hyn sydd ar ein rhiniog – y fasnach arfau, y fasnach gyffuriau... Rydyn ni eisoes wedi crafu'r wyneb ar y ddau bwnc yma. Ond efallai y trown ni'n ôl at brosiect llai sy'n bwydo i mewn... Pan rwy'n lluniadu, mae'n bwysig troi'n ôl at y dechrau – er mwyn cael gweithio gyda phensel neu siarcol unwaith eto. Mae wastad angen imi ddod o hyd i'r ddaear eto – gweld pwy sydd o fy nghwmpas. Mae'n rhywbeth ffisegol – daearu fy hun. Mwy na thebyg y bydd angen imi fynd am dro hir drwy Gasnewydd unwaith eto...

**Gareth:** Mae Smash It Up yn gychwyn ar fudiad, yn ddechrau ar ymgyrch. Nid diwedd ydyw.

# ORIEL WRECSAM A BWTHYN Y BUGAIL


Gimme Shelter, artist a llun: Antonia Dewhurst

*Er mwyn adrodd stori Oriel Wrecsam (OW) a Bwthyn y Bugail, cefais sgwrs gyda chwech o bobl: Steffan Jones-Hughes, Rheolwr y Celfyddydau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyfarwyddwr Rhaglen OW, ac artist gweledol; Jo Marsh, Swyddog Dysgu ac Ymgysylltu sydd hefyd yn artist; Kristian Lozstyn, mentor pobl ifanc i brosiect STARS Parc Caia; artist comisiwn, Antonia Dewhurst; a Grant a Tash, dau o'r gwirfoddolwyr ifanc sy'n ei helpu i adeiladu Bwthyn y Bugail.*



Prosiect Ffermio, archif Oriel Wrecsam

**Mae Wrecsam Greadigol wedi cyrraedd!** Mae'r celfyddydau yn Wrecsam wedi gweld newidiadau sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae wedi symud o fod yn darparu gwasanaeth hamdden i ddod yn un o'r prif bethau i ysgogi datblygiad economaidd yn y dref a'r sir ehangach.

Nodau ein prosiect yw:

- Datblygu canolfan gelfyddydol a diwylliannol sy'n rhoi lle blaenllaw i'r celfyddydau gweledol
- Adfywio Wrecsam yn gymdeithasol ac yn economaidd
- Cynorthwyo a datblygu cydlyniant cymunedol
- Gwella iechyd a lles trigolion
- Cynyddu cyfranogiad
- Datblygu cynulleidfaoedd
- Ehangu'r cynnig diwylliannol
- Cyfrannu at adfywio economaidd

('Meysydd Rhaglen' Cyhoeddiad OW)

*Comisiynodd OW ddarn Bwthyn y Bugail gan Antonia Dewhurst, sy'n dangos ymrwymiad y tîm i fath penodol o ymarfer celfyddydol sydd ag 'ymgysylltiad cymdeithasol'. Mae'n cynrychioli'r math o brosiectau y maent wedi'u datblygu i helpu i gyflawni'r nodau uchod.*

# OW AC WRECSAM GREADIGOL

*Lleoliad gwreiddiol OW oedd llyfrgell gyhoeddus y dref. Mae bellach yng nghanol y ddinas cyn y bydd yn symud i gartref parhaol newydd. Lluniwyd cynllun busnes a dyluniadau manwl ar gyfer Gofod Celfyddydol a Diwylliannol gwerth £4.3 miliwn i Wrecsam, y disgwylir iddo agor yn ystod gwanwyn 2018 ar safle Marchnad y Bobl.*

*Mae OW yn gweld y symud fel cyfle i ymgysylltu â'r dref mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Steffan a gweddill tîm OW i fath o gelfyddyd sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol. I gefnogi hyn, datblygwyd nifer o 'feysydd' gwaith a phrosiectau oddi ar y safle arloesol gan Jo Marsh, sy'n gweld yr holl dref fel oriel dros dro newydd OW. Mae OW ar hyn o bryd wedi'i lleoli mewn dwy uned siop wag yng nghanol y dref gyda chymorth y Cyngor Bwrdeistref Sirol, rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru ac arian prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru.*

*Gofynnais i Steffan sut deimlad yw bod mewn siop yng nghanol y dref yn hytrach na bod mewn llyfrgell.*



OW Stryt Caer, llun: James Harper



OW Art Vend, llun: Jo Marsh

**Steffan:** Cynulleidfa benodol iawn sy’n ymweld â llyfrgell. Rwyf wrth fy modd yn y siop wag hon yn y stryd. Rydych chi, fwyaf sydyn, yn rhan o fywyd pob dydd. Rydym yng nghanol bar karaoke, campfa, archfarchnad Bwylaidd a thafarn gymunedol Gymraeg. Mae’n ‘stryd sy’n methu’ ers i TJ Hughes, y siop chwaraeon fawr gyferbyn, gau (a oedd arfer cynnwys llwybr cerdded i ran arall o’r dref). Felly, nid yw pobl fel arfer yn dod lawr y stryd hon mwyach.

Rwy’n adnabod Wrecsam. Mae wedi newid llawer yn y pum mlynedd diwethaf. Bydd carchar mawr yn cael ei agor yn 2017...mae 52 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y dref bellach. Hon yw’r dref fwyaf yn y gogledd ac nid oes unrhyw gleientiaid mwyach sy’n cael arian gan Gyngor y Celfyddydau. Mae yna botensial mawr i gynulleidfaoedd yma ac i arbrofi gyda gweithio gyda chymunedau penodol. Rwy’n gwbl ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae ein celfyddyd yn chwalu rhwystrau cymdeithasol. Mae’n rhoi delwedd arall i Wrecsam.

*Mae Steffan wedi bod yn y swydd ers 2012 ac mae’n gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth ‘Wrecsam Greadigol’. Cyn hyn, bu’n ymwneud â nifer o brosiectau adfywio gan artistiaid mewn mannau eraill ac roedd yn rhan o’r gwaith o gefnogi ‘The Arthouse’ yn Wakefield.*

**Steffan:** Ar ôl mynd i gyfarfodydd gyda’r cyngor lleol a chael fy niystyru am ddweud bod celfyddyd yn un o’r prif bethau sy’n ysgogi datblygiad economaidd, mae’r ymadrodd wedi cael ei ddyfynnu yn ôl sawl gwaith. Gall ddod yn ystrydebol ond rwy’n gwybod ei fod yn wir.

Gyda chyllid adfywio, mae dal yn bosib ystyried celfyddydau fel rhywbeth ychwanegol. Ond mae hyn yn wahanol iawn i’r hen ffordd o ymgysylltu’n gymunedol – lle roedd yr agwedd gyfranogi yn aml yn fwy i’w wneud â gallu cael arian. Mae hyn yn golygu llawer mwy na ‘dod â’r artist i mewn’.

**Fern:** A yw’r dref yn barod ar gyfer ‘Wrecsam Greadigol?’

**Steffan:** Yn ôl y sôn, dywedodd un cynghorydd tref ganolfan ddiwylliannol arfaethedig. Dywedodd, “y gwir amdani yw mai tref pei a sglodion yw Wrecsam”. Efallai mai dyna beth ydym ni ond gallwn ni fod yn llawer mwy os gallwn groesawu creadigrwydd. Rwy’n credu y gallwch chi gael celfyddyd a phei a sglodion. Tref greadigol yw Wrecsam. Dyma gartref y chwyldro diwydiannol a’r arian papur cyntaf. Roedd yn dref lawn creu, gweithgynhyrchu a sgiliau crefft.

*Mae Steffan a’i dîm wedi bod yn weithgar iawn yn ymgynghori â phreswylwyr lleol am ba fath o ddarpariaeth gelfyddydol y mae pobl ei heisiau yn y dref. Aethant ati i greu fforwm yng nghanol y dref i gael trafodaeth. Mae ‘Meysydd Celf’ arloesol fel ‘Art Vend’ ac ‘I Know You, You Can Come With Me’, hefyd wedi dod â chelfyddyd yn agosach a’i wneud yn fwy gweladwy i bobl y dref.*



PERICLO, llun: Dewi Lloyd

*Dywedodd Jo Marsh, Swyddog Dysgu ac Ymgysylltu ragor i mi am y 'Meysydd Celf' a pham eu bod yn bwysig, yn enwedig yn yr amser hwn o newid i OW.*

**Jo:** Mae'n golygu cael diffiniad estynedig o'r celfyddydau. Mae hyn yn teimlo'n arloesol i Wrecsam. Gydag arfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, nid yw'n gwneud pethau'n symlach nac yn creu gwrthrych – mae proses a chyd-destun y celfyddydau yn bwysig.

Gan ein bod yn un o'r ardaloedd peilot 'Cyfuno', sy'n edrych ar drechu tlodi drwy ddiwylliant, mae hynny wedi rhoi llwyfan i ni wneud y gwaith gwerthuso a monitro. Rydym wedi bod yn mesur effaith ein prosiectau ac mae gennym dystiolaeth ynghylch a yw hyn yn gweithio neu beidio. Mae hyn wedi ein helpu i ddwyn sylw at waith OW. Mae wedi bod yn ddefnyddiol i ddatblygu ffordd bendant o fesur effaith a datblygu achos cryf dros yr hyn rydych yn ei wneud. Ond mae'n bwysig parhau i ofyn – "sut ydym yn cadw ffocws yn y celfyddydau?" – pan rydym hefyd yn bodloni cynifer o feini prawf eraill. Mae'r 'Meysydd' yn brosiectau celfyddydau cyfoes sy'n cynnwys sgiliau ymarferol dysgu mewn cyd-destun celfyddydau gweledol.

**Steffan:** Mewn dwy flynedd, rydym yn gobeithio agor drysau i ddatblygiad mwy yng nghanol y dref, 'OW: Marchnad y Bobl'. Mae'r ganolfan wedi'i chynllunio gyda chynaliadwyedd mewn golwg. Bydd ganddi sinema, caffi, marchnad, gofod perfformio ac orielau...os nad ydych yn gwneud unrhyw beth gyda phobl, mae'n anodd cyfiawnhau cael y gofod hwn. Fel dywedodd Jo, nid yw'n golygu gwneud pethau'n or-syml, ond mae angen i bobl brofi celf, nid dim ond dysgu sut i'w ddeall gyda phaneli diddiwedd o destun sydd ond yn 'egluro arddangosfa'.

**Jo:** Mae sicrhau bod celfyddyd yn berthnasol i bobl yn rhan annatod o weledigaeth Oriel Wrecsam.

**Fern:** Steffan, sut fyddech chi, fel Cyfarwydd Rhaglen OW, yn disgrifio eich rôl a pha mor bwysig yw'r ffaith eich bod yn artist gweithgar?

**Steffan:** Mi fuaswn i'n galw fy hun yn 'ysgogydd'. Estyniad o fy ngwaith fel artist yw'r swydd hon. Galwedigaeth ydyw. Mae fy mywyd gwaith yn cynnwys llawer o ymgysylltu. Yr athroniaeth y tu ôl i'r hyn rydym yn ei wneud yw 'cydweithio ar waith'. Gall fod yn flinedig, ond rwyf wrth fy modd yn rhoi cyfleoedd i artistiaid eraill. Mae pob un ohonom yn artistiaid ar y tîm yma. Mae hyn yn annatod i'r ffordd rydym yn gweithio ac yn datblygu prosiectau a phartneriaethau. Mae pob un ohonom ar yr un daith.

Ymddengys fod mentora a chefnogi myfyrwyr ac artistiaid newydd yn rhan bwysig o'r hyn sy'n digwydd yn OW. Cafodd Jo ei hun ei mentora gan Steffan fel rhan o'i phrosiect Wanderbox.

**Steffan:** Mae angen i ni hefyd fod yn ystyriol ynghylch gweithio gydag artistiaid newydd ac iau. Mae gennym ofod o'r enw 'Risg ac Arbrofi' (PERICLO) – mae hyn yn bwysig i ni. Nid ydym am weithio'n unig gydag artistiaid profiadol a diogel neu rai sy'n boblogaidd ar y pryd, gallai hynny fod yn rhwystr.

# PROSIECT PARC CAIA A BWTHYN Y BUGAIL

**Fern:** Allwch chi ddweud mwy wrthyf am sut y gwnaethoch ffurfio cysylltiad gyda Mharc Caia?

**Steffan:** Fe wnaethom ni gysylltiad gyda Pharc Caia [a oedd arfer cael ei alw'n Queens Park] ar un o'n prosiectau cynharach. Parc Caia yw un o'r safleoedd tai cymdeithasol mwyaf yn Ewrop – a'r mwyaf yng Nghymru. Dechreuodd y prosiect gyda rhaglen o weithdai tynnu lluniau a drefnwyd gennym yno.

Mae 2,000 o dai ym Mharc Caia a 12,000 o bobl. Yn ôl Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru, wardiau Parc Caia a Queensway yw dau o'r 100 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Jo:** Roedden ni'n gwybod ein bod am wneud rywfaint o waith ym Mharc Caia. Syniad newydd oedd y gweithdai tynnu lluniau i weld pwy oedd o gwmpas.

**Steffan:** Gwnaethom ddarparu'r gofod a'r deunyddiau ac artist i arwain y gweithdai. Tra roeddem yn rhedeg y prosiect, fe welsom bod nifer o'r preswylwyr ym Mharc Caia brin yn gadael yr ystâd, felly penderfynwyd mynd â nhw allan i deithiau maes celf i ddangos rhai o'r lleoliadau twristiaeth pwysicaf yn y sir.

**Jo:** Arweiniodd hyn at 'Make Trips'. Aethon ni â'r rhai oedd yn cymryd rhan allan mewn bws mini i dynnu lluniau mewn lleoliadau gwahanol ar draws y sir. Daeth y grŵp ymlaen i fod yn 'Grefftwyr Oriel'. Mae un o'r cyfranogwyr bellach yn arwain y grŵp ac mae bellach yn brosiect hunangynhaliol sy'n trefnu ei hun. Dechreuodd cysylltiad Parc Caia â phrosiect Bwthyn y Bugail yma.

**Fern:** Sut y gwnaethoch chi ddewis pa artist oeddech am weithio gyda nhw ar brosiect Bwthyn y Bugail?

**Steffan:** Antonia Dewhurst oedd un o'r artistiaid wnaeth greu'r argraff fwyaf arnaf i wrth ddewis pobl ar gyfer y Lle Celf yn yr Eisteddfod yn 2011.


*Mae Antonia yn adnabyddus am ei diddordeb mawr mewn llochesi a strwythurau. Cafodd ei gwaith, 'Gimme Shelter' ei dewis ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, a gafodd ei gyflwyno mewn fformat estynedig ar gyfer Artisterium IV yn Tbilisi ac unwaith eto, yn 2012, yn Oriel Davies yn y Drenewydd. Ar ôl 'Gimme Shelter' penderfynodd adeiladu y 'Ty Unnos' sy'n cyfeirio at draddodiad Cymreig o'r 19eg ganrif a oedd yn ymateb i'r Ddeddf Cau Tir lle, os dechreuwyd adeiladu tŷ pan roedd hi'n gwario a bod mwg yn dod allan erbyn machlud haul, roedd hawl i gadw'r strwythur a'i breswylwyr. Aeth ei gwaith gam ymhellach er bod ei diddordeb gyda llochesi dros dro wedi parhau …*



Gimme Shelter, artist a llun: Antonia Dewhurst



Gimme Shelter, artist a llun: Antonia Dewhurst



# "MAE ADEILADU STRWYTHURAU YN RHAN ANNATOD O DDYNOL RYW"

Tŷ Unnos, artist a llun: Antonia Dewhurst

**Antonia:** Roedd pob un o'r bythynnod yn hunanbortread... symbol o ba mor fregus yw cymdeithas sifil...trosiad o gyflwr dynol ryw. I mi maent yn rhoi synnwyr o unigrwydd bywyd yn y 21ain ganrif.

*Ar gyfer Gimme Shelter, gwnaeth Antonia greu cyfres o ficro-strwythurau Tŷ Unnos. Cydweithiodd Antonia ag OW yn cynllunio nifer o fythynnod ar gyfer prosiect ar y cyd, 'I Know You, You Can Come With Me', gan wahodd pobl i wneud eu bwthyn bach eu hunain.*

*Ar gyfer y prosiect presennol hwn, cafodd Antonia briff gan Steffan i greu 'gofod celf dros dro y gellid ei symud'. Fel y 'gofod celf dros dro', penderfynodd Antonia adeiladu Bwthyn y Bugail.*

**Antonia:** Mae adeiladu strwythurau yn rhan annatod o ddynol ryw. Cyn bwyd a diod mae angen llety arnom. Rwyf wrth fy modd â'r maint. Dim ond hyd taldra bugail ydyw. Mae fel cuddfan neu gragen maint person. Ro'n i'n meddwl y buaswn i wrth fy modd yn adeiladu un!

*Fodd bynnag, nid oedd OW am i Antonia adeiladu gofod celf dros dro yn unig yn ei stiwdio, ond roedd am iddi ei adeiladu ar y cyd â phobl ystâd Parc Caia.*

**Antonia:** Nid gweithio'n gymunedol oedd fy mhrif amcan, ond roedd yn glir o'r dechrau ei fod yn bwysig



Bwthyn y Bugail, artist a llun: Antonia Dewhurst



Bwthyn y Bugail, artist a llun: Antonia Dewhurst

i Oriel Wrecsam. Nid dyna oedd fy ysgogiad, gan fy mod yn eithaf swil fel arfer, ond rwyf wedi dod i'w fwynhau.

**Steffan:** Mae'n teimlo'n bwysig bod y bwthyn yn cael ei wneud yno [ym Mharc Caia]. Mae siop gwaith coed ar y safle. Mae cymysgedd o wirfoddolwyr a phobl ifanc yn gweithio arno. Mae'n bartneriaeth go iawn. Gwnaethom ddechrau'r prosiect ond ni allai fod wedi digwydd hebddyn nhw. Maent yn teimlo perchnogaeth drosto. Nhw sy'n berchen arno…

*Mae Antonia yn gweithio gyda gwirfoddolwyr o'r gweithdy gwaith coed a'r bobl ifanc oedd yn ymwneud â phrosiect STARS sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.*

**Jo:** Fodd bynnag, wrth wneud perthnasau rhwng prosiectau, mae angen person allweddol arnoch.

*Y 'person allweddol' hwnnw oedd Kristian Lozstyn, mentor pobl ifanc ar gyfer STARS.*

**Fern:** Pam oedd gennych chi ddiddordeb yn y prosiect penodol hwn?

**Kristian:** Mae'r holl arwyddion clasurol o broblemau cymdeithasol ac economaidd yma (ym Mharc Caia). Rydym yn teimlo mor freintiedig o gael y prosiect hwn. Yr agenda yw cael swydd. Teimlwyd ei fod yn bwysig iawn mai prosiect celfyddydol yw hwn ac nid prosiect sgiliau yn unig. Gall y naratif sy'n 'gwerthu'r' prosiectau mwy arferol hynny i'r gymuned osod rhwystrau ar unwaith. Os ewch chi i'r gymuned a dweud wrthynt "mae gennym brosiect datblygu sgiliau" i chi, yr hyn rydym yn ei glywed yw "dyna ni, un arall, un o'r pethau eraill hynny i'ch helpu i gael swydd, pan nad oes swyddi ar gael". Rydym yn clywed hynny dro ar ôl tro. Mewn prosiect celfyddydol, mae'r eirfa yn wahanol i'r rhai prosiectau cyffredinol hynny gan y wlad. Gall artist wneud rhywbeth na allai person ymgysylltiad cymunedol fyth ei wneud. Gallwn ddweud "rydyn ni am adeiladu Bwthyn y Bugail. Mae'n mynd i fod yn wych, llawn hwyl, bydd yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned, bydd gwaddol ar ei ôl…"

**Antonia:** Gallwn ddysgu llawer gan gelf. Mae'n rhoi safbwynt gwahanol i chi. Mae'n golygu bod yn chwareus a datrys problemau. Mae celf yn gwneud popeth y mae pobl yn ei wneud. Mae'n addysgu, mae'n ysgogi. Mae 'sylwi' yn rhan hanfodol o fod yn artist – "edrychwch ar y byd o'r safbwynt yma" – p'un a yw o gopa mynydd neu fryncyn bychan.

**Grant:** Mae hwn yn ddarn da o waith yn fy marn i. Rwyf wedi gwneud hyn fel darn o gelf. Mae ganddo gymeriad.



Bwthyn y Bugail, artist a llun: Antonia Dewhurst

Rydym yn brwydro i gael catalydd i ddod â phobl i'r gymuned, sy'n hwyl, diddorol, hyfyw a bod neb yno am resymau hunanol. Mae miloedd o bobl yma sydd â chymdogion nad ydynt erioed wedi dweud helo wrthynt. Mae gan y gwasanaethau cyffredinol ddiffyg rhai pethau ac mae agendâu nifer o sefydliadau yn gwthio pobl i ffwrdd... "rydym am roi'r gorau i ymddygiad gwrthgymdeithasol, rydym am i chi ddatrys eich tai, rydym am i chi gael swydd"... Mae bywyd yn ddifrifol, mae'n heriol, mae'n anodd. Mae'r prosiect Bwthyn y Bugail wedi bod yn hwyl ac yn gyfle i ymlacio ac yn ddisgybledig ac yn llawn ffocws! Rwy'n gobeithio ein bod am weld mwy o'r dull hwn lle mae celf o fudd i'r gymuned yn gymdeithasol a hyd yn oed yn wleidyddol.

**Tash:** Rwyf wedi dysgu llawer ers i mi adnabod Toni. Mae'n gynllun gwych. Yn lle fy mod i'n dweud eich bod yn gallu gwneud hwn neu'r llall, maent i gyd yn deall ac yn fy helpu, maent wedi gweithio gyda mi. Mae'n rhoi gobaith i mi.

**Steffan:** Mae'r gymuned wir wedi croesawu'r prosiect ac wedi'i ddefnyddio mewn ffyrdd anarferol – fel ei droi yn Groto Siôn Corn Nadolig diwethaf! Rydym bellach yn wythnos 22 y prosiect. Bydd yn symud i ganol y dref yn y pen draw ac yn dod yn waith celf yn ei rinwedd ei hun – rhan o'n 'casgliad' parhaol.

Pan fydd wedi gorffen, bydd Bwthyn y Bugail yn cael ei osod yng nghanolfan gelfyddydol a diwylliannol newydd OW ym Marchnad y Bobl gan ganolbwyntio ar weithgareddau curadur pellach.

**Kristian:** Hyd yn oed os yw e ond yn cael pobl i feddwl y tu allan i'r bocs, gallai arwain at bethau eraill. Mae llawer o ddarnau celf defaid eraill o amgylch Wrecsam [prosiect OW arall]. Mae pobl yn dechrau dweud: "waw, beth yw'r holl bethau celf yma sy'n digwydd?"

**Fern:** Pa mor bwysig fu agwedd cydweithio ar y prosiect?

**Kristian:** Rydym wedi gweld bod cydweithio yn fwy pwerus pan mae'n cynnwys elfennau dylunio a chreadigol. Dywedodd Toni: "o, rwyf mor falch dy fod wedi gwneud i mi wneud y gwaith fel yna!" Gan roi ein meddwl a'n sgiliau at ein gilydd, rydym wedi gweld bod gennym gymaint o botensial.

Rydym wedi creu perthnasau gwych.

**Antonia:** Dyna fydd y gweddill, cofeb barhaol o berfformiad hirdymor.

**Fern:** Beth ydych chi'n credu y bydd Bwthyn y Bugail yn ei wneud yn Wrecsam?

**Kristian:** Gall ddangos i bobl bod yna ffordd arall. Nid gwaith yw popeth mewn bywyd. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel canolfan gelfyddydol i bobl iau, pobl hŷn – pwy bynnag. Mae'n arbennig i bobl fel Grant yma sydd am fod yn saer. Nid yw'n golygu codi pedair wal yn unig. Mae'n gwneud rhywfaint o gelf hefyd. Mae hynny'n arbennig. Mae llawer mwy i fywyd na chael swydd yn unig, mae harddwch i'w weld, yn ogystal â rhyfeddod a chreadigrwydd…

**Grant:** Mae'n dangos i bobl nad yw bywyd yn ymwneud ag 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn unig a, heb unrhyw raddau, y gallwch roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned o hyd.

*Mae Bwthyn y Bugail a strwythurau dros dro Antonia yn neges atgoffa bwysig, nid dim ond ynghylch pwysigrwydd ymarfer celf ar y cyd sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol ond o ddyfodol ansicr. Nid dim ond i'r rhai sy'n byw yn ardaloedd 'cymunedau yn gyntaf' ond i bob un ohonom ni.*


**Antonia:** Mae'n rhaid i ni ddysgu sut i wneud pethau'n wahanol. Mae angen i ni ddysgu sut i drwsio pethau a byw o fewn ein modd. Bydd pethau yn newid. Cefais fy ngeni yn 1954, y flwyddyn y gwnaeth dogni orffen. Rydym bellach yn byw mewn oes o lymder. Mae'r her yn un gwirioneddol. Bydd yn rhaid i ni ddysgu o hyn – sut i adeiladu yn erbyn y cloc a'r tywydd. Mae pob un ohonom yn adeiladwyr…



Bwthyn y Bugail, artist a llun: Antonia Dewhurst

# LLYSIAU'R VETCH

*Er mwyn adrodd stori Llysiau'r Vetch, cefais sgwrs â thri pherson: yr artist Owen Griffiths a oedd yn gyfrifol am y prosiect; artist arall, Marc Rees, a wnaeth ei gomisiynu i wneud y prosiect a Nathalie Camus, Rheolwr Portffolio yng Nghyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am Adfywio, Cynaliadwyedd a Chelf yn nhir y cyhoedd.*



Braslun beiro Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths

# YR OLYMPIAD DIWYLLIANNOL A CHYSYLLTIADAU LLEOL


Vetch Veg, artist & image: Owen Griffiths

*Roedd Llysiau'r Vetch yn rhan o'r [Olympiad Diwylliannol] ledled y DU yn 2012: 'Artists Taking the Lead' – "the largest cultural programme of any Olympic and Paralympic Games". Roedd Marc Rees yn un o 12 o artistiaid ledled y DU a ddewiswyd i gymryd arweiniad yng Nghymru, gyda'i brosiect uchelgeisiol iawn, Adain Avion, a gynhyrchodd ar y cyd â Chanolfan Gelfyddydau Taliesin ac a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe gydweithiodd â nifer o artistiaid allweddol i greu 150 o ddigwyddiadau yng Nglynebwy, Llandŵ ac Abertawe. Adain Avion oedd canolbwynt y digwyddiadau hyn – gofod celfyddydol symudol, cerflun cymdeithasol a chapsiwl sy'n teithio drwy amser a gafodd ei greu o gorff awyren DC9 wedi'i ailgylchu a'i drawsnewid gan y cerflunydd o Sbaen, Eduardo Cajal. Roedd Llysiau'r Vetch yn un o uchafbwyntiau rhaglen Abertawe, gyda'r bwriad i drawsnewid rhan o heb gartref eiconig Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, y Vetch, (a oedd, pe byddai'n dal i sefyll, yn dathlu canmlwyddiant yn 2012) yn ardd llysiau dros dro gydag aelodau o'r gymuned leol dros un tymor tyfu. Penllanw'r 'gwaith celf cymdeithasol' oedd sioe blodau a chynnyrch a gynhaliwyd o amgylch safle nythu [Avion] o flaen Amgueddfa'r Glannau, a swper cynhaeaf i'r preswylwyr lleol ar yr awyren.*

**Fern:** Felly, cafodd Llysiau'r Vetch ei gomisiynu gan un artist: Owen Griffiths, i artist arall: Marc Rees. Rwy'n gwybod bod y ddau ohonoch wedi cael eich geni a'ch magu yn Abertawe, a dyna pryd dechreuodd pethau, dyma'r prosiect mwyaf uchelgeisiol yng ngyrfa'r ddau ohonoch hyd yma. Soniwch sut y dechreuodd pethau…

Gardd lysiau gymunedol yw **Llysiau'r Vetch**, a gafodd ei chreu yn 2012 - prosiect ar y cyd rhwng preswylwyr Sandfields yn Abertawe, de Cymru a'r artist Owen Griffiths. Gyda'i gilydd maent wedi creu iwtopia ddinesig yng nghanol y ddinas ar sail hanesyddol cae pêl-droed y Vetch. Cafodd y prosiect ei gomisiynu gan Marc Rees a'i reoli gan Ganolfan Gelfyddydau Taliesin mewn partneriaeth ag Oriel Celfyddydau Glynn Vivian, Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Dinas a Sir Abertawe. [Mwy o wybodaeth.]



Y Vetch, llun: Warren Orchard

Cae'r **Vetch** oedd cyn gartref tîm pêl-droed Abertawe ac roedd y stadiwm yn eicon pensaerniïol a diwylliannol mawr yng nghanol y ddinas. Ers y gêm ddiwethaf yn 2005 mae'r stadiwm wedi bod yn wag a chafodd cartref y clwb ei adleoli i ardal Glandŵr, ychydig y tu allan i'r ddinas. Mae'r Vetch wedi'i lleoli yn y Sandfields, ardal sy'n cael ei alw'n hwnnw gan ei fod fel estyniad o'r traeth. Mae'n gymuned fawr sy'n cynnwys tai, canolfannau cymunedol, ysgolion, mosg, eglwysi, llys y goron, carchar, canolfan y fyddin diriogaethol a chanolfan byddin yr iachawdwriaeth. Mae hefyd yng nghanol y ddinas.

Roedd y Vetch yn lle sanctaidd i gefnogwyr ac roedd yn rhan o hunaniaeth y cymunedau. Ers y gêm ddiwethaf, gadawyd i'r stadiwm ddirywio a malurio. Roedd yn ddarn enfawr o dir gyda waliau a gatiau mawr wedi'u rhydu ac yn parhau i fod wedi cloi. Daeth safle'r Vetch yn symbol o'r argyfwng ariannol ac o waith rheoli a chyfathrebu gwael ac yn lle a oedd yn adlais o gefnogwyr a oedd unwaith yn llenwi'r standiau.

Collodd y gymuned gysylltiad ac fe wnaeth ddigalonni ynghylch y diffyg datblygu a gweithredu gyda'r safle; ei ddyfodol a'r syniadau ar gyfer ailddatblygu'r stadiwm a gynigir gan fuddsoddwyr a'r awdurdod lleol. Ar ôl byw gyda'r Vetch yng nghanol eu cymuned a dioddef blynyddoedd o reiats pêl-droed, ymladd yn y stryd, yn ogystal â gemau buddugol pwysig, cyngherddau mawr, yr heddlu ar geffylau yn mynd i lawr y strydoedd bach, tyrrau mawr o bobl ac yna dirywiad y stadiwm yn y pen draw, penderfynodd Dinas a Sir Abertawe y byddai'r tir yn cael ei ddymchwel gan greu man gwyrdd dros dro er mwyn gwneud y tir yn fwy deniadol i'w ail-werthu. Rhoddodd Cyngor Dinas Abertawe ganiatâd i Lysiau'r Vetch ac Adain Avion, Olympiad Diwylliannol Cymru ynghyd â Chanolfan Gelfyddydol Taliesin gael trwydded dros dro ar 2,500 metr sgwâr o'r safle cyffredinol i ymgysylltu â'r gymuned leol yn brosiect, a oedd i gael defnydd dros dro o'r tir hyd at fis Awst 2012.

**Marc:** Ni fyddai Llysiau'r Vetch wedi digwydd heb Adain Avion a'r arian a'r cyfle a gynigiodd. Gwnaeth fframwaith yr Olympiad ddarparu hyn - gan alluogi Owen i wneud prosiect gwallgof yr oedd wedi eisiau gwneud ers tro. Mae ymddiriedaeth yn allweddol yn llwyddiant prosiect fel hyn. Roedd yn eithriadol o bwysig i mi fod y syniad yn dod o gydweithio rhwng dau artist llawn angerdd, y mae'r ddau ohonynt wedi eu geni a'u magu yn Abertawe ac y mae un ohonynt yn dal i fyw o fewn milltir sgwâr i'r prosiect.

**Fern:** A allwch chi ddweud wrthyf beth mae bod yn artist yn ei olygu i chi? Pa fath o artist ydych chi?

**Owen:** Rwy'n artist sy'n gweithio o fewn y cylch cymdeithasol, yn ymchwilio i ofod gan gychwyn sgyrsiau neu ymyraethau – mae rhan fwyaf o fy ngwaith yn tueddu i gynnwys cydweithio mewn rhyw ffordd. Rwy'n chwilio am y cyfleoedd hynny. Rwy'n angerddol ynghylch creu gofod ar gyfer deialog a thrawsnewid. Mae 'artist' yn deitl sy'n galluogi – mae'n golygu y gallaf dresbasu i lefydd na fyddwn yn gallu mynd iddyn nhw fel arfer, fel carchar. Mae Llysiau'r Vetch wedi bod yn freuddwyd i mi ers tro. Mae wedi bod yng nghefn fy meddwl ers blynyddoedd.

**Marc:** Rwy'n ystyried fy hun fel archeolegydd. Rwy'n gymysgedd o ffeithiau a ffuglen. Mae gennyf ddiddordeb mewn haenau ac ymuno gwrthrychau (a phobl)…

**Owen:** Gall yr artist fod yn hwylusydd sgyrsiau a gwneud newidiadau.

**Marc:** Pan gefais y comisiwn 'Artists Taking the Lead' roeddwn i'n gwybod fy mod am weithio gydag Owen. Mae gweithio gyda rhywun arall yn rhoi potensial arall yn llwyr – dyna beth yw pwrpas cydweithio.

**Owen:** Mae gennyf ddiddordeb gwybod sut ydych chi'n datrys neu'n mynd i'r afael â materion a phroblemau drwy broses greadigol. Gwnaethom siarad â'r cyngor am hyn fel prosiect celfyddydol – roeddent yn anghyfforddus yn syth, ond, gan ei fod yn cael ei labelu fel 'Olympiad Diwylliannol', roeddem yn gallu archwilio'r syniad dros dro. Wrth gwrs, gwnaethom wrthdroi hyn, a oedd yn rhan o'r cynllun. Roeddent yn credu y byddai'n 'ddarn celf cyhoeddus' yn para am flwyddyn. Yn hyn o beth, roedd Llysiau'r Vetch bob amser yn brosiect 'swyddogol' ac 'anffurfiol'. [Hyd yma, yn 2016, roedd Llysiau'r Vetch yn dal i fod yn gryf].

**Marc:** Roedd y ffaith mai prosiect 'Olympiad Diwylliannol' oedd hyn yn rhoi ffordd i ni siarad â Chyngor Abertawe. Roedd gan y cyngor ddiddordeb yn syth. Os oes gennych angerdd, gallwch ddarbwyllo unrhyw un i wneud unrhyw beth – gallem ddweud yn hyderus: "bydd hyn yn dda i chi". Roedd y Vetch am gael ei ddymchwel beth bynnag. Roedd cryn anfodlonrwydd ynghylch hyn. Nid oedd pawb o blaid, serch hynny. Roedd un cynghorydd amlwg am weld canolfan gymunedol yn cael ei hadeiladu ar y tir yn lle hynny. Ond fe wnaethon ni eu darbwyllo. I ddechrau roeddent am adeiladu cartrefi yno hefyd. Mae Sandfields yn ardal amrywiol ac aml-ddiwylliannol iawn gan gynnwys llawer o gymunedau Tsieineaidd, myfyrwyr a Bangladeshaidd, ac mae'n ardal heb fannau gwyrdd.

**Owen:** Roedd nifer o bobl, gan gynnwys y cyngor, yn amheus o'r syniad a'r gwahoddiad i'r gymuned greu prosiect. Roeddent yn gefnogol ond hefyd yn amau a fyddai gan unrhyw un ddiddordeb. Rhan bwysig o'r llwyddiant oedd sicrhau partneriaid lleol cefnogol, gan gynnwys cyd-gynhyrchydd Adain Avion, Sybil Crouch, cyfarwyddwr Canolfan Gelfyddydau Taliesin (Roedd hefyd yn gynghorydd lleol yn yr ardal ac yn gyfrifol am gynaliadwyedd yng Nghyngor Dinas Abertawe ar y pryd). Fe wnaeth Sybil a'i thîm yn Nhaliesin chwarae rîl enfawr o ran gwireddu'r prosiect a'i gefnogi y tu hwnt i'r prosiect Olympiad Diwylliannol. Fe wnaeth y prosiect barhau i dyfu y tu hwnt i'n disgwyliadau a chawsom ein llethu gan y diddordeb a'r gefnogaeth yn ogystal â'r logisteg o reoli gofod o'r fath. Yn llythrennol, dyna oedd fy mywyd am ddwy flynedd. Yn y pen draw, daeth Carys Shannon, Cynhyrchydd Creadigol ac artist, i'n helpu ni gan reoli llawer o'r gwaith ymgysylltu ochr yn ochr â mi, gan ein helpu i wireddu capasiti a chwmpas y prosiect a ddaeth, ac sy'n parhau i fod, yn fan gwyrdd cymdeithasol allweddol yng nghanol y ddinas. Peth arall sy'n hanfodol i lwyddiant Llysiau'r Vetch oedd cefnogaeth Deb Hill, arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur yng Nghyngor Abertawe.

*Diolch yn bennaf i waith Deb a'i thîm bychan ymrwymedig, mae gan Abertawe hanes hir o hyrwyddo bioamrywiaeth, addysg ecolegol ac ymgysylltiad cymunedol. Abertawe yw cartref Canolfan Amgylcheddol gyntaf Cymru. Gwnaeth presenoldeb y partneriaethau hyn a chysylltiadau gweithgar â grwpiau cymunedol presennol alluogi Llysiau'r Vetch i wneud llawer iawn mewn amser byr iawn – gan greu gwaith celf â gwaddol a phrosiect tyfu lleol mewn dim ond un tymor…*

**Fern:** A allwch chi ddweud mwy wrthyf am eich hymarfer celfyddydol?

**Owen:** Rwyf bob amser wedi bod â diddordeb mewn cysylltiad â chyfiawnder cymdeithasol ac ymdeimlad o le drwy ymarfer yn seiliedig ar broses – gan amlygu gwleidyddiaeth cymunedau neu gysylltiad a rhyngweithio gyda thirwedd. Pan roeddwn i'n yr ysgol, roeddwn i am fod yn rhywbeth rhwng artist, athro a gweithiwr cymdeithasol. Pan roeddwn i'n astudio celf ym Mhrifysgol Oxford Brookes, roedd gen i randir ond roeddwn i'n casáu mynd yno fy hun. Roeddwn i am iddo fod yn ofod cymdeithasol, yn chwynnu gyda'r tegell yn berwi. Ni wnes i dreulio llawer o amser yn y stiwdio – roedd yn rhaid i mi orfodi fy hun i fynd yno - roedd pawb bob amser yn gweithio yn eu gofod unigol . Felly, gydag artistiaid o Abertawe a chyd-fyfyrwyr Prifysgol Oxford Brookes, Fern Thomas ac Adele Vye, gwnaethom ddechrau creu digwyddiadau neu brosiectau ar y cyd yn seiliedig ar diriogaeth gymdeithasol, a ddatblygwyd ymhellach pan gwnaethom ddychwelyd i Gymru. Roedd gennyf ddiddordeb i ganfod y cydbwysedd rhwng gweithfan, gofod creadigol, byw a chreu gofod ond nid yn gwybod sut i gyflawni hyn.

Rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan enghreifftiau o syniadau o ddefnydd tir dinesig o lefydd fel Berlin, Copenhagen, o randiroedd a sgwatiaid ac ysgrifau cynllunwyr anarchaidd fel Colin Ward, penseiri radical fel Walter Segal a phrosiectau mannau cyhoeddus fel Park Fiction yn Hamburg. Nid yw creu gardd neu fan gwyrdd fel cymuned (fel Llysiau'r Vetch)


Caffi Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths


Caffi Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths.

yn beth newydd a gafodd ei ddyfeisio gan ymarferwyr cymdeithasol neu artistiaid. Mae'n weithgaredd dinesig a chymdeithasol. Mae'n hynafol ac nid wyf yn ei hawlio fel gwaith celf. Gall celf a'r broses o gomisiynu gwaith celf cyhoeddus fel deialog alluogi llawer iawn – os yw'r amodau yn gywir. Gall y math hwn o ymarfer greu newid diwylliannol gan ysgogi adfywio; rhywbeth i fod yn ymwybodol ohono a'i ddefnyddio at ddibenion da.

**Marc:** Roedd y Vetch yn faes pêl-droed eiconig, a enwyd ar ôl planhigyn cyffredin – aelod o'r teulu codlysiau. Roedd yn teimlo'n briodol y dylid ei droi'n fan tyfu unwaith nad oedd yn gweithredu fel maes pêl-droed mwyach. Roedd rhandiroedd yn bodoli'n wreiddiol ar y safle cyn iddo ddod yn gartref i'r tîm pêl-droed lleol. Mewn ffordd, roeddem yn troi'r lle yn ôl i'w swyddogaeth wreiddiol – man gwyrdd, gardd, lle i dyfu a thrawsnewid.

**Owen:** Mae gardd yn lle gwych, stiwdio sy'n galluogi creadigrwydd i ffynnu. Mae hwn wedi bod yn freuddwyd o brosiect i fi. Roedd wedi bod yng nghefn fy meddwl ers tro. Roedd Llysiau'r Vetch yn benodol iawn i 'le'. Pan roedd pobl yn gofyn: "o ble rydych chi'n dod?" – gan ystyrir fod prosiectau cymunedol yn cael eu cludo gan bobl allanol fel arfer – roeddwn i'n gallu dweud fy mod yn dod o Abertawe. Roedd byw'n lleol a gallu gweld y gofod o ffenestr fy ystafell wely yn teimlo'n bwysig. Gallaf edrych allan drwy'r ffenestr a'i weld hyd yn oed nawr.

*Mae Llysiau'r Vetch yn cynnwys 110 o welyâu tyfu, polydwneli a gafodd eu hadeiladu a'u garddio gan dros 150 o bobl o gymuned Sandfields. Mae, i bob pwrpas, wedi dod yn 'iwtopia ddinesig yng nghanol y ddinas'*

**Owen:** Daeth pawb â'u sgiliau a'u gwybodaeth. Roedd gennym ffermwyr ieir, garddwyr, cogyddion a seiri yn ogystal â phobl nad oedd erioed wedi tyfu unrhyw beth o'r blaen i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Pan rydych yn ymgynnull grŵp mawr o bobl i weithio ar ymdrech gymunedol, gall sgiliau a phrofiadau'r grŵp gael eu chwyddo a'u gweithredu. O ganlyniad, gall pethau gael eu datrys a gall pethau ddigwydd yn gyflym.

**Fern:** A oedd pobl yn gwybod eich bod yn artist ac mai prosiect celf oedd hwn, nid dim ond gardd gymunedol?

**Owen:** Ro'n i jyst yn gwneud popeth roedd angen i mi ei wneud – trefnu coed, adeiladu gwelyâu, siarad â phobl, casglu gwrtaith a gwymon ar gyfer compost, trefnu cyrsiau cadw gwenyn ac adeiladu ffwrn bara. Nid oedd y bobl eraill yn cael anhawster yn ei weld fel prosiect celfyddydol. A dweud y gwr, yr anhawster mwyaf oedd o'r bobl hynny yn y byd celfyddydol a'r cyfryngau. Roedd Llysiau'r Vetch yn ddarn celfyddydol am fynediad i dir a datgysylltiad o ofod dinesig a chydweithio. Mae gennym agwedd hynafol at fynediad a phwysigrwydd gofod gwyrdd a chyhoeddus yn Abertawe a ledled y DU.

**Marc:** Nid oedd pobl Sandfields yn gwybod neu'n poeni ai prosiect celfyddydol ydyw. Roedd rhai eraill yn ymwybodol bod Owen yn artist a bod hyn yn rhywbeth i'w wneud gyda 'Diwylliant' a'r 'Olympics'. Roedd y prosiect yn drawsnewidiol. Roedd yn goresgyn rhwystrau. Roedd pobl yn coginio ac yn bwyta yn ogystal â thyfu gyda'i gilydd. Daeth yn ganolfan gymunedol awyr agored.

**Owen:** Cafwyd trawsnewidiad go iawn yn Sandfields. Roedd llawer o unigrwydd cymdeithasol er bod llawer o dai. Mae Llysiau'r Vetch wedi helpu i greu 'NI'... Rydym wedi clywed sawl fersiwn o'r stori - "roedden ni'n byw drws nesaf i bobl ac erioed wedi siarad â nhw tan i ni eu gweld yn Llysiau'r Vetch". Gwnaeth y gelf, rhythmau tyfu bwyd - dyfrio, plannu, chwynnu - alluogi perthnasau cymdeithasol i ddatblygu. Pan rydych yn ymwneud â fframwaith ymarferol rhywbeth fel creu gardd gyda'i gilydd mae'n trechu rhwystrau cymdeithasol a hiliol. Mae angen cydweithredu a chydweithio mewn cyd-destun newydd - a dyna beth rydym yn ei wneud.

**Fern:** Nathalie, a allwch chi ddweud wrthyf pa arwyddocâd y cafodd y prosiect hwn i chi o ran eich safbwynt personol ac fel rhywun sy'n gweithio mewn uwch swydd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru?

**Nathalie:** Mae pobl yn gofyn weithiau: "ble mae'r gelfyddyd?' mewn prosiectau fel hyn. Nid yw bob amser yn bresennol mewn ffurf draddodiadol y gellir ei hadnabod. Ond fe roedd yn bresennol yn Llysiau'r Vetch - nid dim ond rhandir ydoedd. Roedd esthetig penodol amdano a oedd yn annatod. Cafodd ei greu mewn ffordd benodol gyda sylw i fanylion i weld sut yr oedd pobl yn cylchdroi. Roedd cynhesrwydd creu wrth wraidd y prosiect. Gallech weld hynny yn y ffordd y byddai pobl yn goleuo pan fyddant yn siarad am yr ardd.

Nid yw ymarfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol yn newydd, ond mae rhywbeth am Lysiau'r Vetch bellach wedi dod yn fodel cydnabyddedig, gan angori'r syniad o gelfyddyd a thir y cyhoedd yn gadarn yn ysbryd Cymru. Mae'r math hwn o ymarfer yn bodoli rhwng celfyddyd a phensaernïaeth, mae'n cynnwys pob disgyblaeth. Wrth wraidd hyn roedd chwilfrydedd am sut y daeth pobl at ei gilydd a llywio o fewn mannau. Mae'n gwyrdroi'r syniad o bensaernïaeth. Mae pobl fel arfer yn meddwl am adeiladau wrth ystyried pensaernïaeth. Fe wnaeth Llysiau'r Vetch briodi ymarfer celfyddydol â dealltwriaeth o adfywio ac ymgysylltiad cymunedol.



"ROEDD YN GORESGYN RHWYSTRAU. ROEDD POBL YN COGINIO AC YN BWYTA YN OGYSTAL Â THYFU GYDA'I GILYDD"

Cwrs Adeiladu Ffwrn Fara, Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths

# GWADDOL A DYSGU



Caffi Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths

**Owen:** Cymerodd dair blynedd o'r cydsyniad i'r adeg pan adawais y prosiect. Mae'n dal i fynd rhagddo. Ei gynaliadwyedd yw ei waddol. Dyna beth yw cynaliadwyedd – nid oes angen artist arno i'w wasanaethu yn yr hirdymor. Mae'n edrych ar ôl ei hun.

**Marc:** Llysiau'r Vetch yw'r prosiect Adain Avion mwyaf llwyddiannus o ran y gwaddol y mae wedi'i greu. Mae Taliesin yn dal i fod â rhan ynddo ond caiff ei redeg gan y gymuned leol yn llwyr erbyn hyn.

**Owen:** I nodi diwedd fy nghyfraniad i â Llysiau'r Vetch, gwnaethom drefnu Gŵyl Syniadau Sandfields. Roedd hyn yn rhan o symudiad Oriel Gelfyddydol Glyn Vivian tra ei fod yn cael ei adfywio. Karen MacKinnon oedd y curadur. Roedd, yn ei hanfod, yn ŵyl lle roeddem yn adeiladu sied a oedd hefyd yn llyfrgell, gyda yoga, pizzas, trafodaethau, ffilmiau, gigs a phabell gwrw ac artist preswyl. Roedd yn ddigwyddiad gwych. Cynhaliwyd trafodaethau gan Nina Pope o brosiect gardd yn Llundain, 'What Will The Harvest Be?'. Alistair Hudson o Grizedale Arts (sydd bellach yn Gyfarwyddwr MIMA), yr artist Shimabuku a Peter Finnemore fel artist preswyl a llawer mwy.



# "MAE GARDD YN LLE GWYCH, STIWDIO SY'N GALLUOGI CREADIGRWYDD I FFYNNU"

Gŵyl Syniadau Sandfields, Llysiau'r Vetch, llun: Eva Bartussek


Gŵyl Syniadau Sandfields, Llysiau'r Vetch, llun: Eva Bartussek

**Fern:** Sut beth oedd ichi orffen gweithio ar y prosiect?

**Owen:** Roedd yn rhaid imi adael. Fyddai ddim yn gweithio petawn i yno yn ei yrru ymlaen o hyd. Roedd yn rhaid trosglwyddo'r awenau. Roedd gadael yn brofiad emosiynol iawn. Roeddwn i yno bob un dydd am ddwy flynedd. Bob tro rwy'n siarad am Lysiau'r Vetch (ac mae pobl yn dal i fod eisiau imi sôn amdano) rwy'n dysgu mwy am y broses ac amdanaf i fy hun. Fe weithiais yn agos iawn gyda rhai o'r garddwyr yn benodol. Rydych yn dod yn ffrindiau, a daw perthnasoedd cymhleth i'r amlwg, fel cydawduron a chydweithwyr. Roeddwn wedi buddsoddi gormod mewn llawer o ffyrdd. Mae'n fan cyfarwydd iawn yn fy nychymyg ond fydda i ddim yn mynd yno'n aml iawn mwyach. Mae ganddo ei fywyd ei hun bellach.

**Fern:** A yw Llysiau'r Vetch yn dal i fod yn ddarn o gelf a chithau wedi gadael?

**Owen:** Does dim rhaid galw'r peth yn gelf mwyach – na byth. Doedden ni byth yn mynnu hynny.

**Fern:** Beth ddysgoch chi drwy'r prosiect?

**Owen:** Fe newidiodd fy mywyd. Bydd yno yn fy isymwybod am byth. Cyn Llysiau'r Vetch, roeddwn i'n gwneud llawer o wahanol bethau ond yn cael trafferth dod â nhw ynghyd mewn un ffurf neu ymarfer cydlynol. Fe wnaeth Llysiau'r Vetch fy helpu i wneud hynny. Roeddwn i'n naïf iawn - roedd yn rhyw fath o brentisiaeth greadigol. Roeddwn i'n rhoi cynnig ar bethau. Rwyf wedi dysgu llawer am sut i wneud pethau a pheidio â gwneud pethau yn y dyfodol.

**Nathalie:** Roedd Llysiau'r Vetch yn ymwneud â'r cysyniad o ofod cyhoeddus a phreifat, ac ailddefnyddio gofod mewn cyd-destun trefol. Ni wnaeth ddechrau fel prosiect adfywio. Ond mae gan artistiaid ffordd wahanol iawn o fynd i'r afael â phroblemau ac maen nhw'n aml yn gallu synhwyro elfennau cynnil na fyddai'n amlwg i gynllunwyr trefol a phrosiectau adfywio ffurfiol, efallai. Mae democratiaeth a deialog yn y modd yr aiff artist ati i weithio. Unwaith bydd datblygwyr preifat yn cychwyn ar ddarn o waith, caiff mynediad ei gau ac mae'r gofod ar gau. Pan fydd artistiaid yn rhan o bethau, mae rhywbeth ynglŷn ag ansawdd y cyswllt â'r gymuned sy'n ystyrlon ac sy'n cael ei gynnal y tu hwnt i'r rhaglen ei hun.

**Fern:** Beth sydd wedi digwydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i Lysiau'r Vetch?

**Owen:** Rwy'n credu bod Llysiau'r Vetch wedi dylanwadu ar y ffordd yr oedd datblygwyr am adeiladu ar y safle yn y dyfodol. Cafodd rhan o'r tir gwyrdd (wrth ymyl Llysiau'r Vetch) ei gwerthu i gymdeithas dai i adeiladu tai gwarchod. O hyn hefyd daeth 'Tyfu'n Lleol', cynllun sy'n cael cymorth yr awdurdod lleol ac a ddatblygwyd gan Sybil yn ei rôl fel cynghorydd sir, i roi grantiau i gymunedau sy'n tyfu eu bwyd eu hunain. Sut mae gwneud yn siŵr bod prosiectau celf yn byw y tu hwnt i'w cylch cyllido ac yn datblygu i fod yn systemau cynaliadwy pan fo hynny'n bosib? Sut gallwn ddylanwadu ar gynllunwyr a gwleidyddion yn y tymor hwy? Dyma gwestiynau y mae gen i ddiddordeb mawr ynddynt. Ond does gen i ddim cynllun deng mlynedd! Mae'n dal i fod yno hefyd, yn ennill gwobrau cynaliadwyedd, yn rhoi cyfle i gydweithio, yn ogystal ag ymddangos ar BBC Countryfile (!) a llawer o bethau eraill, ond yn bwysicaf oll mae llawer o'r un bobl ac aelodau newydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd yno. Byddaf wastad yn eithriadol o ddiolchgar am y cyfle a'r profiad o weithio gyda'r bobl wych hynny yn ystod y cyfnod o 2-3 blynedd.

Mae **Tyfu'n Lleol** yn ymwneud ag annog ein cymunedau i dyfu eu bwyd eu hunain drwy ariannu amrywiaeth o brosiectau tyfu yn y gymuned sydd â'r nod o wella mynediad at ffrwythau a llysiau ffres ledled y ddinas.
Mwy o wybodaeth



**"MAE DEMOCRATIAETH A DEIALOG YN Y MODD YR AIFF ARTIST ATI I WEITHIO"**

Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths


Llysiau'r Vetch, artist a llun: Owen Griffiths

**Nathalie:** I mi, roedd Llysiau'r Vetch yn golygu adennill dinasyddiaeth. Roedd yn adlewyrchiad da iawn o sut roedd Cyngor Celfyddydau Cymru, ar ôl ei ailstrwythuro, yn dechrau edrych ar ei ymagwedd ei hun at fenter, yr amgylchedd adeiledig, cynaliadwyedd, adfywio a thir y cyhoedd. Roedd yr amser yn iawn inni edrych ar y safle sydd i gelf gyhoeddus. Roedden ni eisiau newid ffordd o feddwl ynglŷn ag adfywio a chelf gymunedol. Teimlem ein bod eisiau dechrau buddsoddi mwy o'n cyllid yn y ffordd benodol hon o weithio. Mae llawer i'w ddysgu – yn arbennig o ran sut y gweithiwn mewn partneriaeth ag artistiaid a sefydliadau neu sectorau eraill.

Mae Llysiau'r Vetch yn sicr yn cydweddu â strategaeth ddiweddar Cyngor Celfyddydau Cymru, Creu Cymunedau Cyfoes. Y mae'n amser diddorol. Mae'r dirywiad economaidd yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau. Ond mae'n rhaid inni fod yn ofalus nad ydym yn ymgymryd â 'chynllwynio cymdeithasol'. Mae ymgyfranogi'n hanfodol. Nid ei wneud i bobl yw'r diben; mae pobl yn gydradd yn y broses hon. Mae'n golygu grymuso pobl a'u cymunedau. Mae'n golygu cyd-drafod y gofod hwnnw sydd rhwng gofodau, bod yn agored o ran gweledigaeth, a thynnu ffurfiau seilos i lawr. Ond mae hefyd yn golygu ein bod fel cyllidwyr yn cydweithio â'r gelf ac nid yn defnyddio'r gelf, bod yn agored i gamgymeriadau, risgiau a dysgu yn ogystal â bod yn atebol.

Mae'r bobl greadigol sy'n gweithio yn y maes hwn wedi bod, neu wrthi'n datblygu iaith ymgyfranogi yn ogystal â chelf. Yng nghyd-destun y ddeddf newydd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae hyn yn fwy perthnasol nag erioed ac mae'n bwysig y gall artistiaid ymgyfranogi ynghyd â chynllunwyr a datblygwyr.

**Fern:** Ac felly, beth nesaf?

**Owen:** Mae llawer o sgwrsio ar lafar wedi digwydd yn sgil y prosiect hwn. Fi yw 'dyn Llysiau'r Vetch'. Mae hyn wedi fy ngalluogi i weithio ar ragor o brosiectau ond weithiau mai pobl eisiau delwedd o rywbeth fel Llysiau'r Vetch yn hytrach na'r cyfle i ymateb i'r cyd-destun a darganfod beth fyddai angen. Yn sicr, nid prosiect i dicio blychau oedd hwn, na brandio rhywbeth mewn ffordd benodol. Roedd yn benodol i'r safle, yr amser a'r gymuned, ac roedd yn gyfle i roi llawer o fy syniadau ar waith ar raddfa fwy, diolch i waith Marc a Sybil, ac mae hyn wedi dylanwadu'n fawr arnaf. Byddwn yn mynd ati mewn ffordd wahanol yn awr.

Mae angen inni ymateb yn benodol i bob safle, ac nid gorfodi syniad o rywle arall. Ar brosiect newydd, rwy'n gofyn: "beth sydd ei angen, beth wnawn ni?" Ym mhob prosiect newydd, rwy'n mynd drwy gyfnod o feddwl "Bydd yn rhaid imi orfod symud fan hyn!" Prin iawn yn awr yw cael prosiect tair blynedd. Mae fy mhrosiectau presennol yn gorfod digwydd yn ôl amserlen lawer yn fyrrach. Rhaid i'r gwaith fod yn fwy seiliedig ar amser a chyllideb, ond rwyf wedi dysgu bod yn rhaid imi dreulio'r rhan fwyaf o'r amser sydd ar gael ar y paratoi – y cam ymchwil a datblygu.

Fe wnaethon ni greu Llysiau'r Vetch yng nghysgod Carchar Abertawe. Fe gawson ni sgwrs gyda nhw am wneud rhywbeth tebyg yno. Chafodd y syniad hwn ddim ei wireddu ond rydyn ni bellach yn gweithio ar Uned Ddiogel Hillside yng Nghastell-nedd i gyd-greu system tir bwytadwy gyda'r bobl ifanc yno.

*Mae cywaith arall hefyd ar y gweill i Owen Griffiths a Marc Rees yn 2018, yn defnyddio Paneli Brangwyn yn Neuadd y Ddinas, Abertawe. Mwy o newyddion i ddod...*

# ADNODDAU A DARLLEN PELLACH

## EGINIAD A NEWID DIWYLLIANT

*www.emergence-uk.org*

*www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/CULTURE-SHIFT-Report.pdf*

*www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/CULTURE-SHIFT-Appendices.pdf*

*www.emergence-uk.org/wp-content/uploads/CULTURE-SHIFT-Report-Welsh.pdf*

## MR A MRS CLARK – SMASH IT UP

**I gael mwy o wybodaeth am Mr a Mrs Clark**
*www.mrandmrsclark.co.uk*

**I gael mwy o wybodaeth am André Stitt**
*www.andrestitt.com*

**I gael mwy o wybodaeth am Srdja Popovic**
*www.blueprintforrevolution.com*

# ORIEL WRECSAM A BWTHYN Y BUGAIL

**I gael mwy o wybodaeth am Antonia Dewhurst a'i gwaith**
www.culturehall.com/portfolio.html?artist=antonia_dewhurst

www.fionaowen.wordpress.com/2013/01/30/roots-and-rootlessness-an-interview-with-artist-antoniadewhurst/

www.bbc.co.uk/blogs/wales/entries/c859e3cd-7b31-3866-afa9-b6190ecf19ab

www.blurb.co.uk/b/1908872-gimme-shelter

**Gwefan a blog Steffan Jones-Hughes**
www.steffanjoneshughes.wordpress.com

**Prosiect celf Jo Marsh**
www.wanderbox.org

**Ynglŷn ag Oriel Wrecsam**
www.wrexham.gov.uk/english/community/arts_centre/arts_centre_home.htm

**Partneriaeth Parc Caia a Phrosiect STARS**
www.caiapark.org.uk/young-people/stars-striving-towards-achievement-recognition-and-success/

www.leaderlive.co.uk/news/155606/a-unique-enclosed-space-that-will-help-open-doors-for-youngpeople.aspx

# LLYSIAU'R VETCH

**Mwy o wybodaeth am Owen Griffiths**
www.aboutreconnection.com

www.vetchveg.co.uk

**Mwy o wybodaeth am Marc Rees**
www.marcrees.com

www.marcrees.com/projects/adain-avion/

**Ffilmiau Llysiau'r Vetch**
www.youtube.com/watch?v=SDNE97EE_3g

www.youtube.com/watch?v=irK4JHAAWGg

www.youtube.com/watch?v=Ta6Evudx_34

www.youtube.com/watch?v=jjYYDO40Qto

www.youtube.com/watch?v=cLyhdM5TtaA

# CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU A LLYWODRAETH CYMRU

**YSBRYDOLI: Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, Cyngor Celfyddydau Cymru**
http://www.arts.wales/arts-in-wales/ysbrydoli?diablo.lang=cym

**Creu Cymunedau Cyfoes – Strategaeth y Celfyddydau ac Adfywio, Cyngor Celfyddydau Cymru**
www.arts.wales/77361

**Fframwaith Adfywio Llywodraeth Cymru**
http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/regeneration/vibrant-and-viable-places/?skip=1&lang=cy

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir/future-generations-bill

# DARLLEN PELLACH

Suzi Gablik, The Re-enchantment of Art, Thames & Hudson, 1991

Lucy Neal, Playing for Time, Oberon Books, 2015